Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol

National Neurodivergence Team

# Adroddiad Blynyddol 2023/4

**"Daliwch ati i gyflwyno, daliwch ati i addysgu pobl i roi'r cyfle gorau posib i bobl awtistig gael profiad da wrth ymgysylltu â gwasanaethau."**

**Mae wedi bod yn bleser cydweithio â'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r tîm yn wybodus iawn ac fe gawsom ni adborth gwych gan ein haseswyr am y sesiynau ymwybyddiaeth a gynhaliwyd a'r modiwlau DPP a grëwyd. Rydym yn gobeithio parhau i gydweithio yn y dyfodol i wella'r broses PIP gymaint ag y gallwn.**

**Bu i ni fwynhau gweithio mewn partneriaeth â'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol yn fawr. Maen nhw wedi rhoi hyfforddiant Awtistiaeth ar-lein i dîm y Gymdeithas, sydd wedi helpu'r staff i fod yn fwy hyderus ac ymwybodol o Awtistiaeth.**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CLlLC
WLGA

# Contents


Cyflwyniad Y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol ............02

Pennod 1: Cydweithio.........................................................03

Pennod 2: Cyfathrebu.........................................................06

Pennod 3: Cod Ymarfer .......................................................09

Pennod 4: Hyfforddiant a Datblygu'r Gweithlu.....................13

Pennod 5: Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig....................25

Pennod 6: Addysg...............................................................28

Pennod 7: Cymorth i Deuluoedd..........................................31

Pennod 8: Newid i fod yn Dîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol.........................34

Appendix: Integrated Autism Services 2023/24 Data Report ......................................................37

# Cyflwyniad

Hoffem ddiolch i Lywodraeth Cymru am barhau i ddarparu cyllid craidd a chefnogaeth i ni, ac i CLlLC am eu cymorth a'u harweiniad.

Yn 2023-24, ehangodd y tîm ei rôl i ganolbwyntio ar niwrowahaniaeth. Roedd hyn yn cyd-fynd â gwaith Llywodraeth Cymru ac yn adlewyrchu'r ymrwymiad cynyddol i'r gymuned Niwrowahanol gyfan. Fel y mae'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol yn ei ddweud yn aml, roedd yr ehangiad hwn yn llawer mwy o esblygiad nag o chwyldro. Datblygodd yr ehangiad ar sylfeini cadarn y gwaith ar awtistiaeth ac mewn gwirionedd, roedd y tîm wedi bod yn canolbwyntio ar gyflyrau sy'n cyd-ddigwydd ac yn gysylltiedig hefyd ers rhai blynyddoedd. Gwaetha'r modd, gadawodd Bethan Gilson y tîm ym mis Tachwedd 2023 i symud ymlaen i swydd wych gyda Llywodraeth Cymru.  Ar nodyn mwy cadarnhaol, roeddem yn ddigon ffodus i gael croesawu Ben Ewart-Dean i'r tîm ym mis Medi 2023, ac mae wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r hyn y gall y tîm ei gynnig i rieni a gofalwyr.

Fel y gwelwch chi, mae'r tîm wedi parhau i ddatblygu a chyflawni llawer o waith amrywiol a chadarn, ac mae ein hadroddiad blynyddol yn amlinellu elfennau allweddol sy'n dangos manylder ac ehangder ein gwaith. Gobeithio y teimlwch fod yr adroddiad hwn yn un diddorol ac yn llawn gwybodaeth. Mae yna lawer mwy o waith i'w wneud o hyd ar gyfer pobl niwrowahanol a'u teuluoedd, ond mae yna lawer i'w ddathlu hefyd.

Yn ogystal, fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae gweithio dros y we wedi ein galluogi i ddatblygu ein gallu i gyd-gynhyrchu ymhellach. Rydym wedi sefydlu grwpiau ymgynghorol effeithiol ac amrywiol i helpu llunio a llywio ein gwaith. Diolch i bawb sydd wedi bod yn rhan o hyn - mae eich cyfraniad wedi bod yn amhrisiadwy.Mae cydweithio gyda'r gymuned niwrowahanol, gweithwyr proffesiynol a chydweithwyr eraill wedi sicrhau bod popeth a wnawn yn ddefnyddiol ac yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl niwrowahanol a'u teuluoedd yng Nghymru.

Y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol

# Pennod 1: Cydweithio

## Gweithio Gyda'r Gymuned Niwrowahanol

Nod ein tîm yw "gwella bywydau pobl Niwrowahanol yng Nghymru" ac mae cyd-gynhyrchu yn rhan hanfodol o waith y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol. Mae pobl Niwrowahanol wrth wraidd yr holl weithgorau, ac yn dylanwadu ar yr holl waith, adnoddau, hyfforddiant a digwyddiadau.

Mae'r tîm wedi parhau i weithio'n agos gyda grwpiau ymgynghorol o bobl niwrowahanol er mwyn sicrhau bod y gymuned niwrowahanol yn cael eu cynnwys mewn ffordd hygyrch ac ystyrlon.

Fel egwyddor, mae'r tîm yn gwerthfawrogi cyfraniad pobl niwrowahanol ac yn cydnabod yr amser y maent yn ei roi i'n prosiectau, yr egni, arbenigedd a'r ymroddiad.

Ynghyd â'r grwpiau ymgynghorol, mae'r tîm wedi creu trydydd modiwl e-ddysgu: Deall Asesiadau ac Awtistiaeth, sy'n cyd-fynd â'r 2 fodiwl e-ddysgu blaenorol: Deall Awtistiaeth a Deall Cyfathrebu Effeithiol ac Awtistiaeth.Mae'r tîm wedi cyd-gynhyrchu cyfres o daflenni cyngor i oedolion awtistig hefyd. Mae gan y cymunedau ymarfer hefyd gyfranwyr niwroamrywiol allweddol i sicrhau bod profiad pobl niwrowahanol yn helpu i lunio a llywio ymarfer, gwybodaeth a dealltwriaeth broffesiynol. Sefydlwyd Grŵp Ymgynghorol newydd i Rieni a Gofalwyr Pobl Niwrowahanol hefyd, a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Ionawr 2024. Fe'i sefydlwyd i glywed llais rhieni a gofalwyr pobl niwrowahanol yng Nghymru.

Er mwyn nodi symud o Awtistiaeth i Niwrowahaniaeth, creodd y tîm Grŵp Ymgynghorol profiad byw ADHD a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Mehefin 2023. Sefydlwyd grŵp Tasg a Gorffen newydd hefyd er mwyn edrych ar greu adnoddau sy'n benodol ar gyfer ADHD.

## Arweinwyr Awtistiaeth Awdurdodau Lleol

The team works closely with the National Autism Leads in all 22 Local Authorities across Wales. The team has continued to facilitate the quarterly National Autism Leads network meetings virtually, as well as quarterly regional meetings for North Wales Leads and South Wales Leads.

The National Autism Leads continued to disseminate information from the team locally and played a key role in informing national policy and guidance through local networks. Regular meetings have facilitated the sharing of good practice amongst National Autism Leads.

The National Autism Leads also played a key role in the rollout of the Code of Practice as well as promoting the autism e-learning modules: Understanding Autism & Understanding Effective Communication and Autism with their networks.

## Grwpiau Llywio

Rhan allweddol o waith y tîm yw sicrhau bod ein budd-ddeiliaid yn ymwybodol o'r gwaith yr ydym yn ei wneud a'u bod yn gwybod pa adnoddau sydd gennym i'w cefnogi nhw, p'un a ydynt o faes Iechyd, Gofal Cymdeithasol ac Addysg neu'n bobl niwrowahanol a'u teuluoedd.

Er mwyn sicrhau bod ein hadnoddau'n diwallu anghenion ein budd-ddeiliaid, mae'n bwysig ein bod yn gwrando a chasglu data am pa adnoddau neu hyfforddiant allai fod yn ddefnyddiol i nodi heriau a rhwystrau.

Mae ein tîm wedi parhau i gydweithio ar draws Cymru eleni gyda phobl niwrowahanol, Byrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol, y 3ydd sector, sefydliadau cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys aelodaeth ar nifer o grwpiau llywio a grwpiau strategol. Buom mewn nifer o ddigwyddiadau wyneb i wyneb hefyd er mwyn dangos y gwaith yr ydym yn ei wneud.

Dyma rai o'r grwpiau/cyfarfodydd strategol y buom ynddynt eleni:

- Cyfarfodydd Grŵp Awtistiaeth Trawsbleidiol LlC
- Rydym yn rhan o'r 7 grŵp strategol Awtistiaeth (ND) ar draws pob ardal BPRh

- Adolygiad Buckland o Gyflogaeth Awtistiaeth - Goblygiadau Strategaeth Awtistiaeth Cymru
- NIAG - Grŵp Gweithredu a Sicrwydd Cenedlaethol, Anableddau Dysgu Oedolion
- Grŵp Cynghori'r Gweinidog
- Gweithdy Gweithlu ND, gan ddod ag AaGIC, LlC, Gofal Cymdeithasol Cymru, Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd ynghyd
- Grŵp Llywio Iechyd Meddwl ND Cenedlaethol
- AET Sir Fynwy ERG – rhan o banel arbenigol fu'n datblygu adnodd addysg newydd ar gyfer Sir Fynwy

Cyfarfod y grŵp llywio:

- Canolbwynt Rhanbarthol Arweinwyr Awtistiaeth Gogledd Cymru
- Amryw grwpiau Budd-ddeiliaid Awtistiaeth ar draws Awdurdodau Lleol Cymru
- Cymorth i deuluoedd a Chymuned Ymarfer NYTH
- Fforwm Arfer Gorau Llywodraeth Cymru
- Grŵp Strategol Iechyd Meddwl
- Cyfarfodydd ffrwd waith
- Grwpiau Cynghori Clinigol
- Bwrdd Rhaglen

Sioeau a digwyddiadau a fynychwyd: gweler Pennod 2, Cyfathrebu

Cyflwyniadau mewn cyfarfodydd/digwyddiadau budd-ddeiliaid:

- Rhaglen Trawsnewid ac Integreiddio Blynyddoedd Cynnar
- Cyfarfod Rhwydwaith Teuluoedd yn Gyntaf
- Cyfarfod wyneb yn wyneb ar y cyd rhwng y Rhwydwaith FIS a DEWIS
- Cyfarfod Penaethiaid yn Abertawe
- Cynhadledd Niwroamrywiaeth yn y Gweithle Senedd Insight
- Gwasanaeth Cynhwysiant Anabledd Caerdydd a'r Fro
- Cynhadledd Awtistiaeth Integral, Riga, Latfia, 16 Rhagfyr 2023, lle cafodd aelodau o'r tîm eu gwahodd i roi cyflwyniad am y Cod Ymarfer, y cyd-destun Polisi ADY a symud o Awtistiaeth at Niwrowahaniaeth
- Gweithio gydag ADEW (Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru)
- Cynhadledd Proffesiynolion Flynyddol NAS
- Tourettes Action – cydweithio i gyfieithu modiwl e-ddysgu TA a hwyluso'r gwaith o'i lwytho ar blatfformau dysgu Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol – yn ogystal â hwyluso gweithdy Tourettes Action.

# Pennod 2 – Cyfathrebu

## Ystadegau Gwefan a Defnyddiwr

Mae **AwtistiaethCymru.org** yn cael ei reoli gan y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol. Mae'r wefan yn ganolbwynt ar gyfer pob datblygiad cenedlaethol o ran niwrowahaniaeth ac mae'n cynnig amrywiaeth eang o adnoddau sydd ar gael yn ddwyieithog ac mewn amryw o fformatau.

Yn ystod 2023/24, roedd cynnydd o 93,073 o ddefnyddwyr ar wefan AwtistiaethCymru a chyfanswm o 331,622 wedi edrych ar y dudalen ac roedd 91% o ymwelwyr â'r wefan yn rhai newydd.

## Y Cyfryngau Cymdeithasol

Bu'r tîm yn rhannu negeseuon Cymraeg a Saesneg yn rheolaidd ar Facebook a Twitter. Ystadegau'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer 2023-2024 – cafwyd 474 o ddilynwyr newydd ar Facebook a chollwyd 16 o ddilynwyr ar Twitter/X.

Unwaith eto, bu'r tîm yn defnyddio Mis Cenedlaethol Derbyn Awtistiaeth ym mis Ebrill fel cyfle allweddol i gynyddu ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a derbyniad awtistiaeth trwy rannu nifer o negeseuon dwyieithog ar Facebook a Twitter a oedd yn cyfeirio at adnoddau ar wefan AwtistiaethCymru, gan ddefnyddio dyfyniadau gan aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Awtistiaeth.

Yn ystod Mis Ymwybyddiaeth ADHD ym mis Hydref, cynhaliodd y tîm ymgyrch debyg dros y cyfryngau cymdeithasol gan rannu dyfyniadau gan aelodau'r Grŵp Ymgynghorol ADHD er mwyn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ADHD. Anfonodd y tîm gais am ddyddiaduron fideo ADHD hefyd ar y wefan a thrwy Facebook a Twitter.

Parhaodd y tîm i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo adnoddau newydd ar y wefan, gan gynnwys sesiynau Cymuned Ymarfer, a sesiynau cyngor ar-lein sydd newydd eu creu i Rieni a Gofalwyr.

## Digwyddiadau Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Mynychodd y tîm nifer o ddigwyddiadau a chynadleddau eleni, gan roi cyflwyniadau a/neu gynnal arddangosfeydd i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o niwrowahaniaeth yn ogystal â rhannu gwybodaeth ac adnoddau. Roedd hyn yn cynnwys gwahoddiad i Gynhadledd Awtistiaeth Integral yn Latfia, lle bu aelodau o'r tîm yn siarad am y Cod Ymarfer, y Polisi ADY a symud o Awtistiaeth at Niwrowahaniaeth.

Rhai o'r digwyddiadau fu'r tîm ynddynt yw:

- Cynhadledd Comisiwn Bevan
- Sioe Iechyd Meddwl a Lles
- Autistic Minds Live
- Digwyddiad Capita, Birmingham
- Cynhadledd Niwroamrywiaeth yn y Gweithle Senedd Insight
- Digwyddiad i'r Teulu yn Sir Benfro
- Cynhadledd Awtistiaeth Integral, Riga, Latfia
- Cynhadledd Proffesiynolion Flynyddol NAS

Bu'r tîm hefyd yn darparu cyflwyniadau mewn amrywiaeth o gyfarfodydd / digwyddiadau i fudd-ddeiliaid, gan gynnwys:

- Rhaglen Trawsnewid ac Integreiddio Blynyddoedd Cynnar
- Cyfarfod Rhwydwaith Teuluoedd yn Gyntaf
- Cyfarfod wyneb yn wyneb ar y cyd rhwng y Rhwydwaith FIS a DEWIS
- Cyfarfod Penaethiaid yn Abertawe
- Gwasanaeth Cynhwysiant Anabledd Caerdydd a'r Fro
- Gweithio gydag ADEW (Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru)

## Cynllun Deall a Derbyn Awtistiaeth

Eleni, cyfunodd y tîm ymgyrch Weli di fi a chynlluniau Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth er mwyn creu cynllun Ardystio Deall a Derbyn Awtistiaeth, er mwyn rhoi hyder i bobl fod gan y sefydliad ddealltwriaeth dda o awtistiaeth, pan fydd y dystysgrif yn cael ei harddangos. Staff Canolfan Waith yr Adran Gwaith a Phensiynau yng Nghymru oedd y sefydliad cyntaf i ennill statws Deall a Derbyn.

Yn ogystal, ychwanegodd y tîm drydydd modiwl e-ddysgu at wefan AwtistiaethCymru: Deall Awtistiaeth ac Asesiadau.

Bu'r tîm yn gweithio gyda Tourettes Action hefyd i gyfieithu eu modiwl e-ddysgu, sydd ar ein gwefan ac sydd hefyd wedi ei lwytho ar blatfformau dysgu'r Bwrdd Iechyd ac Awdurdodau Lleol.

## Ail-frandio

Yn ystod y flwyddyn, cafodd y tîm logo newydd. Cafodd ei greu mewn partneriaeth gyda'r Grwpiau Ymgynghorol a'i ddylunio gan Rhys Martin, sydd â chysylltiadau â IAS.  Mae'r logo newydd yn adlewyrchu'r cwmpas ehangach o ran symud o Awtistiaeth Cymru i Niwrowahaniaeth Cymru.

# Pennod 3-
# Cod Ymarfer



## Codi Ymwybyddiaeth o’r Cod Ymarfer a’i Ddyletswyddau gydag Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd

Mae gwaith wedi parhau i fynd rhagddo ar helpu Llywodraeth Cymru i roi’r Cod Ymarfer ar gyflwyno Gwasanaethau Awtistiaeth ar waith ledled Cymru.

Yn 2022/23, dechreuodd y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol gyflwyno rhaglen o weminarau ar draws Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol, ac mae hyn wedi parhau yn 2023/24. Nod y gweminarau 30 munud o hyd yw codi ymwybyddiaeth o ddyletswyddau’r Awdurdodau Lleol a’r Byrddau Iechyd dan y Cod. Mae’r gweminarau hefyd yn amlygu’r cymorth y gall y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol ei gynnig a’r adnoddau a’r hyfforddiant sydd ar gael i gefnogi pobl yn eu swyddi.

Yn 2023/24, cyflwynwyd gweminarau ar draws BIP Cwm Taf, BIP Hywel Dda, BIP Betsi Cadwaladr, BIP Aneurin Bevan a BIA Powys. Roedd presenoldeb yn amrywio, ond roedd yn gyson uchel ar gyfer gweminarau Hywel Dda.

Cyflwynwyd gweminarau hefyd yn yr Awdurdodau Lleol ledled Cymru – cafwyd presenoldeb da yn y rhain. Cyflwynodd y tîm weminarau ar draws Torfaen, Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf, Sir Ddinbych a Chonwy a Cheredigion. Rhoddwyd cyflwyniadau ar y Cod hefyd mewn sawl cyfarfod, gan gynnwys cyfarfod y rhwydwaith Teuluoedd yn Gyntaf, er mwyn amlygu dyletswyddau’r timau dan y Cod a thrafod a dod i ddeall anghenion y timau o ran adnoddau, gan lywio datblygiad adnoddau at y dyfodol.

# Gwerthuso'r Cod Ymarfer – Rhan 1

Comisiynodd Llywodraeth Cymru werthusiad o'r Cod Ymarfer, sy'n cael ei gyflwyno mewn dau gam. Dechreuodd y gwaith ar gam un y gwerthusiad yn ystod Gwanwyn 2023.

Nod y Gwerthusiad o'r Cod Ymarfer ar Gyflwyno Gwasanaethau Awtistiaeth yw adolygu i ba raddau mae dyletswyddau'r cod yn cael eu cyflawni ers iddo gael ei roi ar waith, a datblygu argymhellion am welliannau i gyflawni dyletswyddau'r Cod. Dyma rai meysydd sy'n cael sylw fel rhan o'r gwerthusiad:

- Asesu cydymffurfiad ag adrannau perthnasol y Cod Ymarfer Awtistiaeth.
- Archwilio'r ffactorau sy'n rhwystro ac yn galluogi cydymffurfiad â'r Cod.
- Archwilio effaith y Cod ar ddefnyddwyr y gwasanaethau; a
- Dod o hyd i feysydd y gellid bod angen gweithredu arnyn nhw (argymhellion).

Mae'r tîm yn cefnogi'r broses werthuso drwy fynd i gyfarfodydd grŵp strategol awtistiaeth rhanbarthol pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, er mwyn helpu'r BauPRh, yr Awdurdodau Lleol a'r Byrddau Iechyd i gwblhau'r archwiliad o'u gwasanaethau, a datblygu asesiad sylfaenol sy'n edrych ar eu cydymffurfiad â'r Cod. Cynigiwyd cymorth unigol hefyd i'r rhai a oedd angen cyngor neu arweiniad ar gydymffurfio.

# Canolbwynt y Cod Ymarfer ar y Gweithlu

Un o ganolbwyntiau allweddol y Cod yw sicrhau bod gan Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd y wybodaeth gywir i allu cyflawni'r dyletswyddau ar ran eu sefydliadau.

Gwahoddwyd rheolwyr gweithlu timau gweithlu'r Byrddau Iechyd a'r Awdurdodau Lleol i weithdy ar-lein ym mis Mawrth, a drefnwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol. Roedd y gweithdy'n canolbwyntio ar drafod y Cod Ymarfer; y dyletswyddau yn Adran 3 y Cod; eu cydymffurfiad; a'r rhwystrau y maen nhw'n eu hwynebu wrth geisio cyflawni eu dyletswyddau a chefnogi eu gweithlu ehangach.

Cafwyd presenoldeb da yn y gweithdy hwn, gyda chynrychiolaeth o bob un o dimau gweithlu'r Byrddau Iechyd a 18 o dimau gweithlu'r Awdurdodau Lleol. Mae'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol yn parhau i gydweithio'n agos â thimau gweithlu i godi ymwybyddiaeth o'n hadnoddau a'r cymorth y gall y tîm ei gynnig. Mae'r tîm hefyd yn ymgynghori ar ba adnoddau fyddai'n eu helpu i gefnogi eu gweithluoedd a chyflawni eu dyletswyddau dan y Cod.

Rhyddhawyd ein 3ydd modiwl e-ddysgu, "Deall Asesu ac Awtistiaeth", ym mis Chwefror 2024, ac mae ar gael ar blatfformau dysgu'r Awdurdodau Lleol a'r Byrddau Iechyd. Mae wedi'i gyd-gynhyrchu, yn ddwyieithog ac yn aros am achrediad DPP.

Yn ystod 2023, gweithiodd y tîm gyda Tourettes Action i gyfieithu eu modiwl e-ddysgu, "Deall Tourettes", i'r Gymraeg er mwyn gallu ei ddefnyddio yng Nghymru fel adnodd hyfforddi. Helpodd y tîm yr Awdurdodau Lleol a'r Byrddau Iechyd i uwchlwytho'r modiwl hwn ar eu platfformau dysgu, ynghyd â'r modiwlau e-ddysgu Awtistiaeth eraill.

## Adborth ar ein modiwlau e-ddysgu

Casglodd y tîm adborth gan bobl a oedd wedi cyflawni'r modiwlau e-ddysgu. Roedd yr adborth yn gadarnhaol, a dyma rai dyfyniadau:

"Roedd y cyngor yn glir iawn ac yn hawdd ei ddeall. Rwyf wedi bod yn gweithio gyda phobl awtistig ers rhai blynyddoedd, ond fe ddysgais i ambell i ffordd fuddiol iawn o wneud yr apwyntiad cyntaf yn fwy hygyrch. Rwyf bellach yn deall bod yna nifer o ffyrdd y galla' i wella fy ymarfer er lles fy myfyrwyr awtistig."

"Modiwl dysgu anhygoel. Mae'n wych bod pobl awtistig yn rhannu eu profiadau eu hunain; mae'n ei wneud yn fwy personol ac yn llawer haws ei ddeall."

"Mae wir wedi fy helpu i ddeall bod pawb yn wahanol."

"Un o'r modiwlau hyfforddi gorau rydw i wedi cymryd rhan ynddo erioed. Gwych. Da iawn!"

"...addysgiadol iawn a dechrau gwych i fy helpu fy hun i ddeall sut y galla' i wella fy hun wrth weithio gydag awtistiaeth."

"Fe wnes i fwynhau cymryd rhan yn y modiwl, a oedd yn addysgiadol iawn."

"Roeddwn i'n meddwl ei fod yn wych, ac rydw i'n bendant yn teimlo bod gen i fwy o hyder a dealltwriaeth, a fydd o fudd i mi yn y dyfodol."

"Diolch i chi am eich amser yn rhoi hwn at ei gilydd. Roedd hi mor braf clywed gan bobl a oedd yn gwybod eu stwff yn hytrach na darlithwyr proffesiynol."

"Roeddwn i'n teimlo bod angen clywed llais pobl ag anableddau dysgu ac awtistiaeth..."

"Rwy'n meddwl y gallai'r cwrs fod wedi bod yn hirach. Roedd lefel y manylder yn ddiddorol iawn."

# Pennod 4 – Hyfforddiant a Datblygu'r Gweithlu

Mae'r tîm yn cael llawer o ymholiadau gan athrawon ac ysgolion yn gofyn am adnoddau hyfforddi i'w helpu i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, ac i egluro sut y mae'r Cod yn cyd-fynd â'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd. (Nid yw'r Cod Ymarfer presennol ar gyflwyno gwasanaethau awtistiaeth yn cyd-fynd â'r system ADY).

Mewn ymateb i hyn, ac i adborth cadarnhaol ein Cymuned Ymarfer generig, bu i ni gomisiynu cyfres o weminarau yn arbennig ar gyfer y gweithlu addysg. Cynhaliwyd pedair gweminar bwrpasol – mae manylion pob un i'w gweld isod:

## Y Gweithlu Addysg

Mae'r tîm yn cael llawer o ymholiadau gan athrawon ac ysgolion yn gofyn am adnoddau hyfforddi i'w helpu i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, ac i egluro sut y mae'r Cod yn cyd-fynd â'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd. (Nid yw'r Cod Ymarfer presennol ar gyflwyno gwasanaethau awtistiaeth yn cyd-fynd â'r system ADY).

Mewn ymateb i hyn, ac i adborth cadarnhaol ein Cymuned Ymarfer generig, bu i ni gomisiynu cyfres o weminarau yn arbennig ar gyfer y gweithlu addysg. Cynhaliwyd pedair gweminar bwrpasol – mae manylion pob un i'w gweld isod:

**Cefnogi Niwroamrywiaeth yn yr ystafell ddosbarth,** a gyflwynwyd ar 12 Gorffennaf 2023 gan Catrina Lowri o Neuroteachers. Roedd 151 o bobl yn bresennol.

“Sesiwn anhygoel! Roedd hon wir yn sesiwn braf, ddifyr, addysgiadol ac angerddol. Mor braf gweld baner niwrowahaniaeth yn cael ei chwifio, gan gofleidio a phwysleisio’r gwahaniaethau.”

“Roedd yn hyfforddiant ardderchog. Teimlais fy mod wedi dysgu llawer sy’n berthnasol iawn i fy swydd, ac rwy’n dal i fynd yn ôl dros fy nodiadau i wneud yn siŵr nad ydw i’n anghofio unrhyw beth! Roeddwn i’n teimlo bod yr adrannau ar y dull salad ffrwythau a’r gwahaniaethau synhwyraidd yn arbennig o addysgiadol, ac fe wnaethon nhw i mi feddwl am y dysgwyr rydw i’n eu cefnogi yn fy swydd. Rwy’n teimlo fy mod yn eu deall ychydig yn well rŵan ac y gallaf eu cefnogi’n well. Rwyf wedi rhannu’r ddolen â chydweithwyr ac wedi dweud wrthyn nhw gadw llygad am y recordiad ar y wefan. Fe wnes i fwynhau’r hyfforddiant yn arw, diolch Catrina, ac rwy’n edrych ymlaen am y nesaf ym mis Tachwedd.”

“Un o’r cyflwynwyr mwyaf difyr a diddorol rwyf wedi’i glywed mewn bron i 20 mlynedd.”

**Awtistiaeth a’r ‘dyses’,** a gyflwynwyd ar 7 Tachwedd 2023 gan Catrina Lowri o Neuroteachers. Roedd 190 o bobl yn bresennol.

“Gweithdy llawn gwybodaeth gyda phrofiad uniongyrchol a helpodd fi i ddeall gwahanol anghenion y dysgwyr yn y dosbarth a thu hwnt. Rwy’n edrych ymlaen at wella fy nealltwriaeth ymhellach gyda’r rhestrau darllen a roddwyd. ”

“Roedd hon yn sesiwn addysgiadol iawn, diolch i chi am rannu eich mewnwelediad a’ch profiad personol a’ch gwybodaeth helaeth. Mae eich brwdfrydedd yn amlwg a derbyniwyd eich gwybodaeth yn ddiolchgar gyda’r gobaith o sicrhau bod y lleoliad addysg yn cynnig gwell profiad.”

**Atal Gwaharddiadau o'r Ysgol a Niwrowahaniaeth,** a gyflwynwyd ar 15 Chwefror 2024 gan Catrina Lowri o Neuroteachers. Roedd 324 o bobl yn bresennol.

“Roedd yr hyfforddiant hwn yn hollol wych!”

“Rhagorol”

**Osgoi Ysgol yn Seiliedig ar Emosiwn,** a gyflwynwyd ar 12 Mawrth 2024 gan Catrina Lowri o Neuroteachers. Roedd 507 o bobl yn bresennol.

"Sesiwn wych! Difyr ac addysgiadol iawn, heb lethu'r gynulleidfa gyda jargon / gormodedd o wybodaeth. Addysgiadol iawn!"

"Cyflwyniad trylwyr, cywir a llawn gwybodaeth. Mae'n fuddiol iawn clywed bod fy ymarfer presennol yn cyd-fynd ag argymhellion Catrina. Fe fyddwn i'n hapus i wrando ar Catrina drwy'r dydd a byddaf yn argymell bod cymaint o bobl ag sy'n bosib yn gwneud hynny'n union."

"Hyfforddiant rhagorol, mor bwerus ac addysgiadol. Diolch!"

Mae rôl y Cydlynydd ADY yn allweddol i sicrhau bod anghenion disgyblion ag ADY yn cael eu bodloni yn eu hysgol. Er mwyn cynnig ein cefnogaeth i Gydlynwyr ADY, aeth y tîm i fforymau Cydlynwyr ADY ledled Cymru i roi cyflwyniad byr a oedd yn cynnig trosolwg o waith ein tîm a'r adnoddau sydd gennym i'w helpu yn eu gwaith.

Fforymau Cydlynwyr ADY yr aeth y tîm iddyn nhw yn 2023/24:

- ALl Abertawe – 28 Mehefin 2023. Fforwm ar-lein gyda 56 o bobl yn bresennol.
- ALl Sir Gâr – 3 Hydref 2023. Fforwm wyneb yn wyneb gyda 95 o bobl yn bresennol.
- ALl Caerffili – 26 Hydref 2023. Fforwm wyneb yn wyneb gyda 46 o bobl yn bresennol.
- Rhondda Cynon Taf – 25 Ionawr 2024. Fforwm wyneb yn wyneb gyda 47 o bobl yn bresennol.
- ·Castell-nedd Port Talbot – 21 Chwefror 2024. Fforwm wyneb yn wyneb gyda 86 o bobl yn bresennol.
- ALl Pen-y-bont ar Ogwr – 14 Mawrth 2024. Sesiwn dros y we gyda thua 150 o bobl yn bresennol, gan gynnwys yr holl benaethiaid, uwch arweinwyr, rheolwyr grwpiau a'r Cyfarwyddwr

"Digwyddiad gwych. Roedd hi wir werth mynd iddo."

"Diolch i chi am y sesiwn ac am rannu gwybodaeth/adnoddau."

""'Credaf y byddai mwy o bwyslais ar ysgolion yn cwblhau'r ardystiad wedi helpu. Angen cefnogaeth penaethiaid i sylweddoli'r pwysigrwydd a'r perthnasedd er mwyn cael ethos sydd wir yn gynhwysol."

"Diolch i chi am eich cyfraniad rhagorol.Roeddwn i'n meddwl bod eich cyflwyniad a'r cyngor cysylltiedig o'r radd flaenaf. Mae'r adborth a gawsom gan y rhai a ddaeth i'r cyfarfod wedi bod yn hynod gadarnhaol."

Rydym yn cydweithio â darparwyr addysg uwch i geisio cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth y rheiny sy'n hyfforddi i fod yn athrawon ac yn dilyn cyrsiau israddedig eraill. Mae hyn yn rhan o waith ehangach i geisio gweld sut y gallwn ni gynyddu dealltwriaeth o Niwrowahaniaeth ar lefel israddedig.

Fel rhan o'r gwaith hwn, cyflwynodd y tîm hyfforddiant ar Ddeall Niwroamrywiaeth i'r grwpiau canlynol:

- **Cwrs TAR Prifysgol Aberystwyth** – 20 Ebrill 2023. Hyfforddiant wyneb yn wyneb gyda 62 o bobl yn bresennol.

"Cyflwynodd Frances gwrs hynod fuddiol ac addysgiadol i'n myfyrwyr TAR. Roedd yr adnoddau'n ddifyr ac yn bwrpasol ac yn rhoi cyfle i'r myfyrwyr sy'n hyfforddi i fod yn athrawon fyfyrio ar sut y maen nhw'n ymateb i ddysgwyr sydd ag anawsterau mewn sawl gwahanol ffordd. Diolch yn fawr."

- **Cwrs BSc Nyrsio Prifysgol Aberystwyth –** 11 Hydref 2023. Hyfforddiant wyneb yn wyneb gyda 68 o bobl yn bresennol.

"Sesiwn addysgiadol a buddiol iawn. Diolch i chi am eich amser."

- **Cwrs HCL3 Prifysgol Aberystwyth –** 17 Hydref 2023. Hyfforddiant wyneb yn wyneb gyda 24 o bobl yn bresennol.

"Darlith ragorol, diolch!"

"Teimlais fod y ddarlith yn addysgiadol iawn ac wedi'i chyflwyno'n dda."

"Darlith hynod gynhwysfawr gyda chipolwg ychwanegol ar niwrowahaniaeth, diolch."

- **Cwrs TAR Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant –** 14 Rhagfyr 2023. Hyfforddiant wyneb yn wyneb gyda 70 o bobl yn bresennol.

# Gweminarau'r Gymuned Ymarfer

Rydym wedi cael adborth cyson bod cyflwyno gweminarau'r Gymuned Ymarfer yn parhau i helpu pobl newid eu hymarfer o ganlyniad i ddod i ddeall a dysgu mwy am Niwrowahaniaeth ynddyn nhw. Bu i ni wrando ar ein budd-ddeiliaid a thargedu gweminarau'r Gymuned Ymarfer i ymdrin â phynciau a oedd o ddiddordeb i bobl ac y byddai cael gwell dealltwriaeth ohonyn nhw'n eu helpu yn eu swyddi.

Gall gweithwyr proffesiynol gymryd rhan yng ngweminarau'r Gymuned Ymarfer yn fyw, ac mae'r recordiadau ar gael ar ein gwefan i unrhyw un eu gweld.

Yn ystod 2023/24, bu i ni gynnal gweminarau canlynol y Gymuned Ymarfer:

**Prosesu Synhwyraidd, Awtistiaeth a Hunaniaeth,** a gyflwynwyd ar 25 Ebrill 2023 gan Rachel o Our Sensory Worlds. Roedd 130 o bobl yn bresennol.

"Diolch yn fawr iawn i chi am sesiwn anhygoel."

"Diolch, mae wedi bod yn ddiddorol dros ben."

"Roedd y sesiwn mor addysgiadol a buddiol, diolch!"

"Cyflwyniad gwirioneddol ragorol! Mae hi mooor wych clywed gan bobl awtistig gyda phrofiad bywyd o awtistiaeth. Awtistiaeth Cymru, rydych chi'n llwyddo i gael y bobl orau i ni gael dysgu ganddyn nhw! Gwaith gwych, diolch."

**Syndrom Tics a Tourette: Diagnosis Gwahaniaethol a Chyflyrau sy'n Cyd-ddigwydd,** a gyflwynwyd ar 9 Mai gan Dr Tara Murphy a Jo Kilgraff.

"Diolch yn fawr iawn i chi, roedd y sesiwn mor fuddiol."

"Diolch Joe a Tara, sesiwn ddiddorol iawn!"

"Sesiwn wych, rydw i wedi dysgu cymaint."

"Mae hyn wedi bod yn fuddiol iawn, diolch."

"Byddaf yn gwneud llawer mwy o ymchwil i ADHD a Thiciau."

**Anhwylder Sbectrwm Alcohol y Ffetws (FASD): Trosolwg,** a gyflwynwyd ar 8 Mehefin 2023 gan Adoption UK a'r Athro Raja Muherejee. Roedd 144 o bobl yn bresennol.

"Cyflwyniad gwych. Diolch yn fawr i'r Tîm Cenedlaethol"

"Cyflwyniadau rhagorol, hynod addysgiadol."

"Cymaint o wybodaeth wych gan y ddau siaradwr, diolch yn fawr."

**Gorsymudedd, Poen a Niwroamrywiaeth,** a gyflwynwyd ar 20 Medi 2023 gan Dr Jessica Eccles. Roedd 90 o bobl yn bresennol.

"Roeddwn i eisiau ychwanegu bod hyn wedi bod yn ddiddorol dros ben i mi! Mae wedi gwneud i mi fyfyrio ar fy mhrofiad proffesiynol a phersonol o niwroamrywiaeth a'r cysylltiad â gorsymudedd. Mae hynny yn ei dro wedi newid fy ffordd o feddwl
- er gwell! "

"Roedd hyn mor addysgiadol, cymuned ymarfer wych a fydd yn fy nghefnogi yn fy swydd ac yn bersonol. Diolch yn fawr iawn.

"Sesiwn werthfawr iawn, siaradwr gwych, diolch am ddod â ni i gyd at ein gilydd."

**Celcio, OCD a Niwroamrywiaeth,** a gyflwynwyd ar 5 Hydref 2023 gan Dr Lynne Drummond a Kayley Hyman. Roedd 139 o bobl yn bresennol.

"Sesiwn wych ac mor addysgiadol. Roedd y cyflwynwyr yn wych. Diolch am y cyfle i ddysgu."

"Roedd y ddwy gyflwynwraig yn wybodus iawn ac yn cyfleu'r wybodaeth yn wych. Roedd yn ddiddorol ac yn addysgiadol iawn ac fe ddysgais i lawr iawn. Rwy'n meddwl y byddai'n fuddiol i bob un o fy nghydweithwyr gymryd rhan."

"Diddorol iawn ac wedi'i gyflwyno mewn ffordd mor sensitif."

**Awtistiaeth a Chymunedau Ymylol,** a gyflwynwyd ar 28 Chwefror 2024 gan yr Athro Prithvi Perepa. Roedd 46 o bobl yn bresennol.

"Addysgiadol a diddorol iawn."

"Sesiwn ragorol, diolch!"

"Diolch i chi am drefnu sesiynau'r Gymuned Ymarfer, rwy'n edrych ymlaen at ddod i'r nesaf."

## Hyfforddi'r Gweithlu

Mae'r tîm wedi cyflwyno sesiynau hyfforddi dros y we neu wyneb yn wyneb i amrywiaeth o'n budd-ddeiliaid. Nod y sesiynau hyfforddi hyn yw cynyddu dealltwriaeth o Niwrowahaniaeth yn ogystal â rhoi trosolwg o waith ein tîm a'r adnoddau sydd gennym i helpu, gan ganolbwyntio'n benodol ar y modiwlau e-ddysgu sydd ar gael.

**Asiantaeth Faethu Genedlaethol:** cafodd 24 o bobl hyfforddiant wyneb yn wyneb ar 25 Ebrill 2023 ar Ddeall Niwroamrywiaeth.

Bu i ni fwynhau gweithio mewn partneriaeth â'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol yn fawr. Maen nhw wedi rhoi hyfforddiant Awtistiaeth ar-lein i dîm y Gymdeithas, sydd wedi helpu'r staff i fod yn fwy hyderus ac ymwybodol o Awtistiaeth. Bu i'r tîm fwynhau'r cyfleoedd hyfforddi hyn. Mae Frances Rees wedi darparu sawl sesiwn hyfforddi grŵp i ofalwyr maeth y Gymdeithas ac fe gawsom ni adborth cadarnhaol iawn gan y gofalwyr maeth am y sesiynau hyfforddi. Nododd y gofalwyr fod y sesiynau wedi bod yn fuddiol iawn ac yn berthnasol i'w harferion maethu bob dydd. Roedden nhw'n teimlo bod Frances yn wybodus iawn ac yn gallu cyfeirio'r gofalwyr at y gwasanaethau cymorth cywir yn ôl yr angen.

**Capita:** cafodd 25 o bobl hyfforddiant dros y we ar 3 Mai 2023 ar Ddeall Awtistiaeth.

Mae wedi bod yn bleser cydweithio â'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r tîm yn wybodus iawn ac fe gawsom ni adborth gwych gan ein haseswyr am y sesiynau ymwybyddiaeth a gynhaliwyd a'r modiwlau DPP a grëwyd. Rydym yn gobeithio parhau i gydweithio yn y dyfodol i wella'r broses PIP gymaint ag y gallwn.

**Rhwydwaith Lles Integredig BIP Aneurin Bevan:** cafodd 27 o bobl hyfforddiant dros y we ar 16 Mai 2023 ar Ddeall Awtistiaeth.

"Daliwch ati i gyflwyno, daliwch ati i addysgu pobl i roi'r cyfle gorau posib i bobl awtistig gael profiad da wrth ymgysylltu â gwasanaethau."

"Cwrs hyfforddi rhagorol! Eglur ac addysgiadol iawn gyda hyfforddwyr hawdd siarad â nhw. Diolch."

"Diolch yn fawr iawn am sesiwn hyfforddi addysgiadol iawn."

**Asiantaeth Faethu Genedlaethol:** cafodd 14 o bobl hyfforddiant wyneb yn wyneb ar 13 Gorffennaf 2023 ar Ddeall Niwroamrywiaeth.

**Llinell Gymorth CALL:** cafodd 6 o bobl hyfforddiant dros y we ar 19 Gorffennaf 2023 ar Ddeall Niwroamrywiaeth.

**Capita:** cafodd 25 o bobl hyfforddiant dros y we ar 24 Gorffennaf 2023 ar Ddeall Awtistiaeth.

**Chwaraeon Anabledd Cymru:** cafodd 15 o bobl hyfforddiant dros y we ar 13 Medi 2023 ar Ddeall Niwroamrywiaeth**.**

"Cwrs diddorol iawn; rwy'n teimlo fy mod wedi dysgu cymaint am niwroamrywiaeth ac y bydd o fudd mawr wrth i mi gyflwyno fy sesiynau ac yn ychwanegiad da at yr hyfforddiant presennol."

"Roedd y tiwtoriaid a gyflwynodd yr hyfforddiant hwn yn hynod wybodus am niwroamrywiaeth."

"Diolch yn fawr, sesiwn wych!"

**Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ac Iechyd Meddwl Ehangach:** cafodd 18 o bobl hyfforddiant dros y we ar 30 Hydref a 3 Tachwedd 2023 ar ADOS ADIR.

**Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru:** cafodd 8 o bobl hyfforddiant wyneb yn wyneb ar 13 Tachwedd 2023 ar Ddeall Niwroamrywiaeth.

"Rwy'n teimlo y byddai POB tîm ym mhob sefydliad yn elwa ar yr hyfforddiant hwn. Roedd tystiolaeth ychwanegol Fran wedi'i seilio ar brofiad yn arbennig o effeithiol."

"Diolch am gwrs difyr ac addysgiadol iawn."

"Cwrs cytbwys iawn a gyflwynwyd yn dda ac a oedd yn rhyngweithiol mewn rhannau, diolch."

**Capita:** cafodd 150 o bobl hyfforddiant wyneb yn wyneb ar 21 Tachwedd 2023 ar Ddeall Niwroamrywiaeth.

“Cadarnhaol iawn – diolch! Roedd nifer o fy nghydweithwyr wedi sôn bod y sesiwn yn berthnasol i’w sefyllfaoedd personol eu hunain, ac wedi pwysleisio sut y gallen nhw gefnogi eu tîm yn well. Diolch i chi am yr adnoddau y gwnaethoch chi eu rhannu – mae’r rhain yn hynod fuddiol.”

**Sesiwn PLTS Clwstwr Cymoedd Uchaf BIP Bae Abertawe ar gyfer Meddygfeydd Teulu:** cafodd tua 50 o bobl hyfforddiant dros y we ar 29 Tachwedd 2023 ar Ddeall Niwroamrywiaeth.

**Capita:** cafodd 23 o bobl hyfforddiant dros y we ar 6 Rhagfyr 2023 ar Ddeall Awtistiaeth.

**Gwasanaeth Cynhwysiant Anabledd BIP Caerdydd a’r Fro :** cafodd 10 o bobl hyfforddiant wyneb yn wyneb ar 13 Rhagfyr 2023 ar Ddeall Niwroamrywiaeth.

**Asiantaeth Faethu Genedlaethol, Rhanbarth Ceredigion/Sir Gâr:** cafodd 10 o bobl hyfforddiant wyneb yn wyneb ar 18 Ionawr 2024 ar Ddeall Niwroamrywiaeth.

“Roedd yn bleser gwrando ar Fran a Ben. Mae’n amlwg fod ganddyn nhw wybodaeth fanwl yn y maes hwn. Mae eu cymorth a’u cyngor o fudd mawr. Weithiau, mae’r pethau bach yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr a newid y ffordd rydym yn gweld neu’n dehongli pethau. Diolch.”

**Asiantaeth Faethu Genedlaethol, Rhanbarth Abertawe/Port Talbot:** cafodd 24 o bobl hyfforddiant wyneb yn wyneb ar 22 Ionawr 2024 ar Ddeall Niwroamrywiaeth.

**CANOPI:** cafodd 42 o bobl hyfforddiant dros y we ar 28 Chwefror 2024 ar Ddeall Awtistiaeth a Niwroamrywiaeth.

“Wedi’i anelu’n dda ar gyfer yr amrywiaeth o weithwyr proffesiynol yn y grŵp. Difyr ac addysgiadol iawn. Byddwn yn bendant yn ei argymell.”

“Roeddwn i’n meddwl bod hwn yn hynod addysgiadol ac rwy’n edrych ymlaen at gael golwg ar yr adnoddau ychwanegol.

“Daliwch ati i ddatblygu’r gwahanol feysydd at y lefel rydych chi eisoes wedi’i chyrraedd gydag Awtistiaeth ac ADHD cyn bo hir - adnodd hynod fuddiol ac rwyf eisoes wedi sôn wrth fy ffrindiau amdano.”

Cyflwynodd y tîm hyfforddiant Niwrowahaniaeth i Heddluoedd ledled Cymru, ac mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo ar uwchlwytho ein modiwlau e-ddysgu ar eu platfformau dysgu.

**Rhaglen Addysg Ysgolion Heddlu De Cymru:** cafodd 22 o bobl hyfforddiant dros y we ar 18 Mai 2023 ar Ddeall Niwroamrywiaeth.

"Credaf y gellid bod wedi cyflwyno'r hyfforddiant dros gyfnod o ddau ddiwrnod gan fod yna gymaint o wybodaeth."

**Rhaglen Addysg Ysgolion Heddlu Dyfed Powys:** cafodd 12 o bobl hyfforddiant wyneb yn wyneb ar 12 Medi 2023 ar Ddeall Niwroamrywiaeth.

"Cafodd Swyddogion Ysgolion Heddlu Dyfed Powys hyfforddiant gan Fran yn ddiweddar a roddodd gipolwg gwerthfawr iddynt ar niwroamrywiaeth. Roedd strwythur da i'r hyfforddiant a chafodd ei gyflwyno mewn modd difyr. Roedd yna ddigon o gyfleoedd i'r cyfranogwyr rannu profiadau personol ac roedd y cyngor a roddwyd yn broffesiynol ac yn ymarferol."

·**Rhaglen Addysg Ysgolion Heddlu Gwent:** cafodd 15 o bobl hyfforddiant wyneb yn wyneb ar 5 Rhagfyr 2023 ar Ddeall Niwroamrywiaeth.

"Mewnbwn proffesiynol ac addysgiadol iawn gan Frances"

·**Rhaglen Addysg Ysgolion Heddlu Gogledd Cymru:** cafodd 18 o bobl hyfforddiant hybrid ar 18 Rhagfyr 2023 ar Ddeall Niwroamrywiaeth.

"Fe wnes i fwynhau'r hyfforddiant yn arw. Roedd yn ddiddorol ac yn addysgiadol iawn a bydd o fudd i mi yn fy ngwaith yn y dyfodol wrth weithio gyda phlant. Fe fyddwn i wrth fy modd yn cael mwy o hyfforddiant ar y pwnc hwn."

"Er nad oeddwn i'n gallu bod yno wyneb yn wyneb, fe lwyddais i ymuno dros Teams ac roedd y cyflwyniad yn addysgiadol iawn. Roedd gan y cyflwynwyr wybodaeth dda iawn am y pwnc."

"Roeddwn i'n meddwl bod y cyflwyniad yn ardderchog, diolch."

# Datblygiadau Pellach ac Uwchsgilio


Ym misoedd Ebrill a Mai 2023, bu i'r tîm hefyd gyfarfod â Thîm Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru i weld pa hyfforddiant fyddai'n fuddiol i'w gwaith nhw.

Datblygodd y tîm hefyd hyfforddiant ar gyfer sefydliadau gwirfoddol a chydweithio ag AaGIC i edrych ar ddysgu yn y gwaith.

Mae ein modiwlau e-ddysgu wedi cael eu huwchlwytho ar blatfformau dysgu'r Byrddau Iechyd a'r Awdurdodau Lleol, ac maen nhw hefyd ar gael ar ein gwefan. Mae Gofalwn Cymru (rhan o Gofal Cymdeithasol Cymru) yn defnyddio ein modiwlau a'n hadnoddau fel rhan o'r hyfforddiant y maen nhw'n ei gynnig i ddarpar weithwyr gofal cymdeithasol newydd, a staff Canolfan Byd Gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau yng Nghymru oedd y sefydliad cyntaf i gyflawni statws sefydliad sy'n deall ac yn derbyn.

I adlewyrchu'r newid o fod yn Dîm Awtistiaeth Cenedlaethol i fod yn Dîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol, ym mis Ebrill 2023 cafodd y tîm hyfforddiant i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am ADHD.

# Chapter 5: Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig



Mae'r flwyddyn 2023/24 wedi parhau i herio'r saith Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yng Nghymru yn nhermau galw a chapasiti fel y dangoswyd yn yr adroddiad Adolygiad o'r Galw, Capasiti a Chynllun Gwasanaethau Niwroddatblygiadol: Adroddiad Cryno (llyw.cymru) a gomisiynwyd gan Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag mae'r adroddiad hwn yn dangos data lefel uchel allweddol o'r saith GAI ledled Cymru ac yn adlewyrchu gwaith caled ac ymroddiad y staff sy'n gweithio o fewn eu capasiti yn 2023/24.

Gwelwyd y penawdau data canlynol:

- **10,406** rhyngweithiau gydag oedolion awtistig
- **7,501** cyfeiriadau i'r gwasanaethau ar gyfer oedolion awtistig gyda **57%** o'r rhain yn hunan-gyfeiriadau o oedolion awtistig
- **65%** o'r cyfeiriadau ar gyfer oedolion awtistig yn gofyn am asesiadau diagnostig awtistiaeth a **35%** yn gofyn am gefnogaeth
- Derbyniodd **1,316** oedolyn asesiad diagnostig
- Derbyniodd **1,070** oedolyn ddiagnosis cadarnhaol o awtistiaeth
- **1,724** rhyngweithiau gydag rhieni/ gofalwyr
- **465** cyfeiriadau i'r gwasanaethau ar gyfer rhieni/ gofalwyr gyda **95%** o'r rhain yn hunan-gyfeiriadau
- **92%** o'r cyfeiriadau ar gyfer rhieni/ gofalwyr o oedolion awtistig a **8%** rhieni/ gofalwyr o blant awtistig
- **4,853** rhyngweithiau gydag pobl broffesiynol
- **2,344** cysylltiadau newydd gyda phobl broffesiynol
- **51%** o cysylltiadau gan gweithwyr iechyd proffesiynol, **17%** gan weithwyr proffesiynol o awdurdodau lleol a **7%** o'r sector gwirfoddol

For the full 2022/23 IAS data report, see Appendix 1

# Adborth

Gwybodaeth bellach y gellir ei defnyddio i ddangos y gwaith a wneir gan y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yw adborth gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a gwerthusiadau grŵp. Dyma rai enghreifftiau o adborth a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig yn 2023/24.

‘Dim ond eisiau dweud diolch am yr holl help rydych chi wedi'i roi i mi. Dw i wedi symud i mewn i dŷ bach o’r diwedd nawr… dwi ddim yn meddwl y byddai hynny wedi digwydd hebddoch chi… Diolch yn fawr am bopeth rydych chi’n ei wneud i mi…’ GAI Gogledd Cymru

‘Byddwn yn ei argymell oherwydd bod y bobl y siaradais â nhw yn gyfeillgar ond yn broffesiynol, ac yn gwneud i mi deimlo'n gyfforddus.’ GAI Caerdydd a’r Fro

Canmolodd aelod o’r teulu weithiwr cymorth a dywedodd mai dyma’r tro cyntaf i aelod o’r teulu deimlo bod rhywun yn gwrando arni’n wirioneddol ac ers siarad â’r gweithiwr cymorth mae pethau wedi newid i X, sydd wedi mynd o dreulio’r rhan fwyaf o’i hamser yn ei hystafell wely i wirfoddoli 6 diwrnod yr wythnos a mwynhau yn fawr. GAI Gogledd Cymru

‘Roedd y gwasanaeth yn effeithlon ac roedd yn hawdd deall gwybodaeth. Roedd y gweithiwr yn gwrtais, yn amyneddgar ac yn hyblyg. Gweithiodd i gael gwared o unrhyw straen neu ddryswch, a chaniataodd i'r teimlad o gael ei llethu gael ei leihau.’ GAI Caerdydd a’r Fro

Dyma rywfaint o wybodaeth gan grwpiau a gynhelir gan rai o'r Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig.

GAI Caerdydd a’r Fro ‘Grwp Deall Ymddygiad’

Rhoddodd pob cyfranogwr 5/5 am ba mor addysgiadol oedd y grŵp iddynt. Byddai pob cyfranogwr yn argymell y grŵp i rieni/gofalwyr eraill. Nododd un cyfranogwr ‘Rhoddodd y sesiynau ddealltwriaeth well o lawer i mi pam fod ymddygiadau penodol yn digwydd gyda fy mab. Roedd y strategaethau cyfathrebu yn arbennig o ddefnyddiol i mi’.

GAI Gogledd Cymru ‘Grwp Deall Awtistiaeth’

Roedd casgliad gwerthusiad y grŵp yn nodi ‘O’r maint sampl bach, roedd data cyflawn yn dangos effaith gadarnhaol ar les, cynnydd mewn bodlonrwydd â bod yn awtistig a theimlo’n rhan o grŵp. Roedd cyfranogwyr y grŵp yn gwerthfawrogi’r cyfle i fod gydag oedolion awtistig eraill, awyrgylch y grŵp a’r cyfle i ddysgu mwy amdanynt eu hunain.’

## Cyfnewid Ymarfer

Mae'r tîm yn parhau i drefnu a hwyluso Cyfnewidfeydd Ymarfer. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r 7 Tîm IAS ddod at ei gilydd a rhannu arfer da i sicrhau bod dull cydlynol ar draws Cymru. Mae hefyd yn gyfle i ddarparu cefnogaeth gan gymheiriaid a rhannu cryfderau a heriau.

Eleni, cynhaliwyd y Cyfnewidfeydd Ymarfer canlynol:

- Menopos Awtistig
- Datblygu mesurau grŵp
- Ysgrifennu adroddiadau effeithiol
- Mesur yr hyn sy'n bwysig
- Arfer seren canlyniadau effeithiol

## Hyfforddiant

Mae'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol yn cydnabod pwysigrwydd gweithlu medrus a pharhaodd i hwyluso cyfleoedd hyfforddi ar gyfer y Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig ledled Cymru.

Comisiynwyd a chyflwynwyd yr hyfforddiant canlynol yn 2023-24:

- Hyfforddiant asesu diagnostig ADOS ac ADiR
- Awtistiaeth ac ADHD
- Cyflwyniad i ADHD
- Hyfforddiant Seren Outcome

# Pennod 6: Addysg

## Dysgu am Awtistiaeth

Mae'r rhaglen Dysgu am Awtistiaeth yn mabwysiadu ymagwedd ysgol gyfan i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anghenion plant awtistig. Mae'r hyfforddiant wedi ei gynllunio i gynhyrchu trafodaethau a chynyddu dealltwriaeth ymhlith yr holl staff a disgyblion ar draws yr ysgol/lleoliad. Mae'r data canlynol yn dangos y niferoedd sydd wedi defnyddio'r rhaglenni ledled Cymru.

## Rhaglen y Blynyddoedd Cynnar

Ers ei lansio ddiwedd Medi 2017, mae 3,732 aelod o staff wedi cyflawni rhaglen hyfforddiant y blynyddoedd cynnar ac mae 125 Lleoliad Blynyddoedd Cynnar wedi derbyn eu gwobr Dysgu am Awtistiaeth. Roedd 4 o'r rhain yn ystod 2023/24.

Darganfyddwch fwy am y cynllun Blynyddoedd Cynnar yma.

## Y Rhaglen Ysgolion Cynradd

Lansiwyd rhaglen Dysgu am Awtistiaeth ysgolion cynradd ym mis Mawrth 2016. Ers ei lansio, mae 271 o ysgolion ledled Cymru wedi cyflawni gwobr Dysgu am Awtistiaeth.Yn ystod 2023/24 mae 10 ysgol arall wedi cyflawni gwobr Dysgu am Awtistiaeth.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae 1,809 aelod o staff addysgu wedi cyflawni hyfforddiant Dysgu am Awtistiaeth (12,966 i gyd) a 1,436 o staff Cymorth Addysg (13,284 i gyd). At hynny mae 3,174 o blant wedi cwblhau cynllun Arwyr Awtistiaeth (56,261 i gyd). Cafwyd y dyfyniadau canlynol gan ysgolion cynradd a gwblhaodd y rhaglen yn ystod 2023/24 a dywedasant sut y byddant yn addasu eu harfer o ddydd i ddydd.

"Mae gennym ystafell synhwyraidd ar wahân ar gyfer ein plant ADY prif ffrwd bellach. Rydym wedi addasu ein proffiliau un dudalen hefyd i gynnwys strategaethau i gefnogi disgyblion awtistig."

"Mae'r ffordd yr ydym ni'n cefnogi ein disgyblion awtistig wedi newid trwy'r ffordd yr ydym yn siarad â nhw ac ymgysylltu â nhw."

"Eto, mae dealltwriaeth yn allweddol. Yn enwedig deall nad dewis gan y dysgwr yw'r ymddygiad rydym ni'n ei weld. Maen nhw'n ei chael yn anodd ac mae angen i ni ddiwallu eu hanghenion."

"Mae gennym restr wirio awtistiaeth i sicrhau nad yw amgylchedd ein hystafelloedd dosbarth yn mynd yn ormod i blant. Mae amserlen weledol ar gael ym mhob ystafell ddosbarth bellach. Rydym wedi dechrau llunio Grŵp ADY Senedd Disgyblion hefyd er mwyn iddynt ddarparu adborth i staff. Gall staff wedyn fynd ati i weithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol. Ein canolbwynt allweddol dechreuol yw sut y gallwn addasu amseroedd cinio er mwyn helpu myfyrwyr awtistig i ddelio â'u hanghenion synhwyraidd."

"Rydym wedi sefydlu dulliau cyfathrebu clir rhwng athrawon a rhieni i drafod cynnydd ac anghenion myfyrwyr awtistig ac mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn ymfalchïo ynddo fel ysgol."

"Mae dull hyfforddiant ysgol gyfan, sy'n cynnwys staff, plant a'r gymuned ehangach, wedi arwain at fwy o dderbyniad o ran amrywiaeth; gan roi dealltwriaeth fwy manwl a chlir i bawb o awtistiaeth."

# Y Rhaglen Ysgolion Uwchradd

Ers ei lansio ddechrau Medi 2017, mae 7,588 o staff wedi cyflawni rhaglen hyfforddiant Dysgu am Awtistiaeth i ysgolion uwchradd, ac mae 26,953 o ddisgyblion wedi derbyn y wers Sgilti ac wedi gwneud eu haddewid. Mae 2 ysgol uwchradd arall yng Nghymru wedi derbyn eu gwobr Dysgu am Awtistiaeth yn y flwyddyn ddiwethaf, gan arwain at 29 ysgol wedi cwblhau'r cynllun ers ei lansio.

Hefyd, mae staff ategol fel llywodraethwyr, staff arlwyo a staff gweinyddol ar draws lleoliadau ac ysgolion wedi cyflawni eu tystysgrifau Ymwybyddiaeth Awtistiaeth fel rhan o raglenni Dysgu am Awtistiaeth.

# Cyfres digwyddiadau Cymuned Ymarfer ar gyfer gweithwyr ym maes addysg

Yn 2023/24 gwnaeth y tîm gydlynu cyfres o Gymunedau Ymarfer ar gyfer y rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau addysgol neu'r rhai sydd â diddordeb mewn niwrowahaniaeth ac addysg. Cafodd y sesiynau eu hwyluso gan Catrina Lowri o Neuroteachers, sy'n unigolyn ac addysgwr niwrowahanol. Roedd y sesiynau'n canolbwyntio ar:

- Niwroamrywiaeth yn y dosbarth
- Awtistiaeth a chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd, 'y dyses'
- Atal gwaharddiad a niwroamrywiaeth
- Absenoldeb o'r ysgol yn seiliedig ar emosiynau a niwroamrywiaeth

Gallwch wylio'r recordiadau o'r sesiynau hyn a mwy ar ein gwefan:

https://neurodivergencewales.org/cy/adnoddau/fideos/sesiynau-cymuned-ymarfer/

# Pennod 7:Cymorth i Deuluoedd

## Swyddog Datblygu Niwrowahaniaeth Cymorth i Deuluoedd

Parhawyd i ddatblygu rôl Swyddog Datblygu Cymorth i Deuluoedd gydag ymarfer cwmpasu cychwynnol. Roedd yr ymarfer yn rhan o gynllun gwaith ein tîm a nodwyd fod angen diweddaru ac ehangu ein hadnoddau ar gyfer rhieni a gofalwyr. Mae'n bwysig ein bod yn gweithio gyda rhieni a gofalwyr i sicrhau bod ein hadnoddau yn ddefnyddiol ac yn adlewyrchu'r anghenion.

Ym mis Awst 2023 ymunodd Ben Ewart-Dean â'r tîm fel Swyddog Niwrowahaniaeth Cymorth i Deuluoedd.

## Grwpiau Ymgynghorol Rhieni a Gofalwyr

Roedd y tîm wedi gweithio gyda Grŵp Ymgynghorol Rhieni a Gofalwyr cyn ac yn ystod COVID. Yn 2022-23, gyda rôl newydd Swyddog Niwrowahaniaeth Cymorth i Deuluoedd yn y tîm sicrhau bod gwaith y Grŵp Ymgynghorol Rhieni a Gofalwyr yn cael ei ailgychwyn a'i ehangu.

Nododd y rhieni a'r gofalwyr, ynghyd â Grŵp Ymgynghorol ar gyfer Rhieni a Gofalwyr bod angen Grŵp Ymgynghorol ar gyfer Rhieni a Gofalwyr Niwrowahanol, gan fod rhai o'r heriau a'r wybodaeth y maent ei hangen yn wahanol i rieni a gofalwyr eraill.

Ym mis Tachwedd 2023 datblygwyd arolwg dwyiethog a'i anfon at rieni niwrowahanol.Roedd yr arolwg yn gwahodd pobl i ymuno â'r Grŵp Ymgynghorol Yn ogystal â chael eu barn ar ba adnoddau defnyddiol y gellid eu datblygu.

Cynhaliwyd y cyfarfodydd ar-lein a'u hwyluso gan y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol. Fodd bynnag, cafodd agenda a thrafodaeth y cyfarfod eu llywio a'u harwain gan rieni a gofalwyr. Ar hyn o bryd mae ffocws penodol ar ddiweddaru a datblygu adnoddau. Rhieni sy'n cadeirio cyfarfodydd Grŵp Ymgynghorol Rhieni a Gofalwyr Niwrowahanol. Mae'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol yn cadeirio cyfarfodydd y Grŵp Ymgynghorol Rhieni a Gofalwyr gan nad oes unrhyw riant yn dymuno Cadeirio ar hyn o bryd.

Cynhaliwyd cyfarfod agoriadol Grŵp Ymgynghorol Rhieni a Gofalwyr Niwrowahanol ddechrau Ionawr 2024 ac maent wedi parhau i gwrdd yn rheolaidd wedi hynny.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Grŵp Ymgynghorol Rhieni a Gofalwyr ar 5 Mawrth 2024 ac roedd 50 o rieni a gofalwyr yn bresennol. Ar gyfer y cyfarfod cychwynnol, nodwyd y testunau allweddol, a sefydlwyd grwpiau tasg a gorffen ar gyfer y dyfodol i ganolbwyntio ar gyd-gynhyrchu adnoddau ar gyfer y testunau a nodwyd.

## Sesiynau Cyngor Rhithiol ar gyfer Rhieni a Gofalwyr

Un o'r anghenion a nodwyd o'r trafodaethau cychwynnol gyda'r rhieni a gofalwyr oedd y galw am sesiynau cyngor rhithiol. Roedd fformat y sesiynau hyn yn debyg i'r gweminarau ar gyfer y Cymuned Ymarfer ond wedi'u teilwra'n benodol gan ddarparu gwybodaeth am ystod o destunau yn ymwneud â niwrowahaniaeth. Mae pob sesiwn yn cynnwys cyflwyniad, ac yna sesiwn holi ac ateb. Mae'r cyflwyniad yn cael ei recordio ac mae modd ei wylio ar ein gwefan, ar ôl y sesiwn. Cynhaliwyd y sesiwn gyntaf ar 20 Mawrth 2024: Awtistiaeth a Dynameg y Teulu gan Tony Attwood ac fe gofrestrodd 673 o bobl i fynychu. Llenwodd 40 o bobl y ffurflen adborth - roedd yr adborth yn hynod gadarnhaol gyda 100% o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn fodlon â'r cynnwys a'r fformat.

## Digwyddiadau Ymgysylltu

Ym mis Mawrth 2023 cyflwynodd y tîm mewn gweithdy yn Sir Benfro ar gyfer rhieni a gofalwyr y mae eu plant sydd ar restr aros ar gyfer asesiad diagnostig. Roedd y cyflwyniad yn ymdrin â'r Cod Ymarfer ac ein hadnoddau ac yn canolbwyntio ar chwalu dirgelwch y broses ddiagnostig.

## Ffrwd Waith 2

Fel rhan o Ffrwd Waith Gwasanaethau Cynaliadwy 2, sefydlwyd grŵp tasg a gorffen Cymorth i Deuluoedd. Roedd budd-ddeiliaid o bob cwr o Gymru'n bresennol ac fe gynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 27 Chwefror 2024.

Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen yn bwydo i mewn i'r Grŵp amlasiantaeth llif gwaith 2 trosfwaol i dynnu sylw at y meysydd arfer gorau a datblygiad yn y dyfodol ym maes cymorth i deuluoedd.

## Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Mae rhaglen o Sesiynau Cyngor Rhithiol i Rieni a Gofalwyr wedi'u trefnu hyd at ddiwedd 2024. Mae'r testunau sydd i ddod yn cynnwys: Ymdopi â cholli rheolaeth; Rheoli Gorbryder; Cefnogaeth yn yr Ysgol; PDA; ac Aros yn Ddiogel Ar-lein.

Parhau i weithio gyda Grŵp Ymgynghorol Rhieni a Gofalwyr i adolygu Taflenni Cyngor i Rieni a Gofalwyr gan eu datblygu i gynnwys cyflyrau niwrowahanol ehangach.

Cyd-gynhyrchu cyfres o adnoddau sain gyda Grŵp Ymgynghorol Rhieni a Gofalwyr Niwrowahanol.

Cynnal cyfres o ddigwyddiadau i ymgysylltu â budd-ddeiliaid i godi ymwybyddiaeth o'r adnoddau sydd ar gael ar wefan Awtistiaeth Cymru.

# Pennod 8 – Newid i fod yn Dîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol

Ar 1 Ebrill 2023, newidiodd y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol ei enw i fod yn Dîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol, yn unol â chylch gorchwyl ehangach tîm polisi Llywodraeth Cymru.

Mae'n bwysig pwysleisio bod gwaith y tîm mewn perthynas ag Awtistiaeth yn parhau, gyda gwaith ychwanegol yn cael ei wneud i ehangu cylch gorchwyl y tîm i gynnwys cyflyrau niwrowahanol ehangach.

Yn strategol, mae'r tîm yn parhau i gefnogi gwaith Llywodraeth Cymru a chyflwyno a datblygu'r Cod Ymarfer Awtistiaeth ymhellach.

Mae'r tîm yn rhan o Grŵp Cynghori Gweinidogion Llywodraeth Cymru ar Niwrowahaniaeth ac yn gweithio'n agos gyda'i gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i helpu cyflwyno'r Rhaglen Gwella Gwasanaethau Niwrowahaniaeth. Yn unol â hyn, dechreuodd y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol a chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ddatblygu fframwaith hunanasesu yn 2023. Bydd hyn yn darparu offeryn i Wasanaethau asesu eu harfer, a'u heffeithiolrwydd.

## Cydweithio

Ers mis Ebrill 2023 ymgymerwyd â chwmpas ADHD Oedolion gan y tîm. Roedd hyn yn bwydo i mewn i waith ehangach niwrowahaniaeth Lywodraeth Cymru. Wrth ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach, mae'r tîm hefyd yn cyd-gadeirio grŵp cynghori clinigol ar gyfer gwasanaethau ADHD oedolion yng Nghymru.

Er mwyn sicrhau cydweithrediad agos parhaus â'r gymuned niwrowahanol, sefydlodd y tîm Grŵp Ymgynghorol ADHD i Oedolion a grŵp ymgynghorol o weithwyr proffesiynol.

## Adnoddau

Ym misoedd Tachwedd a Rhagfyr 2023, gweithiodd y tîm gyda aelodau'r Grŵp Ymgynghorol ADHD a gweithwyr proffesiynol yng Ngogledd Cymru, Caerdydd a Chasnewydd i ffilmio deunydd ar gyfer ffilm wybodaeth am ADHD a modiwl e-ddysgu ADHD. Bydd y ffilm gwybodaeth ADHD yn cynnig mewnwelediad gan bobl ag ADHD a gweithwyr proffesiynol, gan sôn am y gwahanol fathau o ADHD, prosesu gweithredol a'r cof gweithredol, rheoleiddio emosiynol, dysfforia sensitifrwydd gwrthodiad, oedi, a mwy, ynghyd â phrofiadau bywyd go iawn o sut y gall ADHD effeithio ar fywyd bob dydd.

Cynlluniwyd a datblygwyd y modiwl e-ddysgu Deall ADHD yn ystod y flwyddyn, a dylai fod wedi'i gwblhau a'i uwchlwytho ar wefan Awtistiaeth Cymru yn nes ymlaen yn 2024.

## Pynciau'r Gymuned Ymarfer Niwrowahaniaeth

Parhaodd gweminarau'r Gymuned Ymarfer gan ganolbwyntio'n ehangach ar niwrowahaniaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Tics & Tourettes, a gyflwynwyd ar 9 Mai 2023 gan Dr Tara Murphy a Jo Kilgraff
- Foetal Alcohol Syndrome, a gyflwynwyd ar 8 Mehefin gan Adoption UK a'r Athro Raja Muherejee
- Neurodiversity in the Classroom, a gyflwynwyd ar 12 Gorffennaf 2023 gan Catrina Lowri o Neuroteachers
- Pain & Hypermobility, a gyflwynwyd ar 20 Medi gan Dr Jessica Eccles
- Hoarding & OCD, a gyflwynwyd ar 5 Hydref gan Dr Lynne Drummond a Kayley Hyman
- Neurodiversity & The Dyses, a gyflwynwyd ar 7 Tachwedd gan Catrina Lowri o Neuroteachers
- Exclusion Prevention & ND, a gyflwynwyd ar 15 Chwefror 2024 gan Catrina Lowri o Neuroteachers

## Hyfforddiant Niwrowahaniaeth

Er mwyn adlewyrchu'r newid o fod yn Dîm Awtistiaeth Cenedlaethol i fod yn Dîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol, cafodd y tîm ddau ddiwrnod o hyfforddiant ar ADHD a sut mae'n effeithio ar fywyd bob dydd. Cynigiwyd yr hyfforddiant hwn i'n cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru hefyd.

Yn ogystal, cymerodd y tîm ran yn sesiynau Emma Woodhouse ar Awtistiaeth ac ADHD, a oedd ar gael i'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig.

Ym mis Tachwedd 2023, bu'r tîm yn gweithio gyda Tourette's Action i roi cyhoeddusrwydd i'w gweithdy yn Abertawe. Sicrhaodd y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol gyllid hefyd i sicrhau bod y gweithdy ar gael i weithwyr proffesiynol eraill yng Nghymru.

## Ail-frandio

Yn ystod y flwyddyn mabwysiadodd y tîm logo Newydd. Crëwyd hwn mewn partneriaeth â'r Grwpiau Ymgynghorol ac fe'i dyluniwyd gan Rhys Martin trwy Tim Awtistiaeth Integredig Bae Gorllewin. Mae'r logo newydd yn adlewyrchu'r cwmpas ehangach wrth newid o fod yn Awtistiaeth Cymru i fod yn Niwrowahaniaeth Cymru.

# Adroddiad Data Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig 2023/24

## 1.Crynodeb Gweithredol

Mae'r flwyddyn 2023/24 wedi parhau i herio'r saith Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yng Nghymru yn nhermau galw a chapasiti fel y dangoswyd yn yr adroddiad Adolygiad o'r Galw, Capasiti a Chynllun Gwasanaethau Niwroddatblygiadol: Adroddiad Cryno (llyw.cymru) a gomisiynwyd gan Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag mae'r adroddiad hwn yn dangos data lefel uchel allweddol o'r saith GAI ledled Cymru ac yn adlewyrchu gwaith caled ac ymroddiad y staff sy'n gweithio o fewn eu capasiti yn 2023/24.

Gwelwyd y penawdau data canlynol.

- **10,406** rhyngweithiau gydag oedolion awtistig
- **7,501** cyfeiriadau i'r gwasanaethau ar gyfer oedolion awtistig gyda **57%** o'r rhain yn hunan-gyfeiriadau o oedolion awtistig
- **65%** o'r cyfeiriadau ar gyfer oedolion awtistig yn gofyn am asesiadau diagnostig awtistiaeth a **35%** yn gofyn am gefnogaeth
- Derbyniodd **1,316** oedolyn asesiad diagnostig
- Derbyniodd **1,070** oedolyn ddiagnosis cadarnhaol o awtistiaeth
- **1,724** rhyngweithiau gydag rhieni/ gofalwyr
- **465** cyfeiriadau i'r gwasanaethau ar gyfer rhieni/ gofalwyr gyda **95%** o'r rhain yn hunan-gyfeiriadau
- **92%** o'r cyfeiriadau ar gyfer rhieni/ gofalwyr o oedolion awtistig a **8%** rhieni/ gofalwyr o blant awtistig
- **4,853** rhyngweithiau gydag pobl broffesiynol
- **2,344** cysylltiadau newydd gyda phobl broffesiynol
- **51%** o cysylltiadau gan gweithwyr iechyd proffesiynol, **17%** gan weithwyr proffesiynol o awdurdodau lleol a **7%** o'r sector gwirfoddol

## 2. Cyflwyniad

Mae 7 Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ledled Cymru, pob un wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'i hymrwymiad i weithredu'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer ASD (Cynllun cyflawni ar gyfer anhwylder y sbectrwm awtistiaeth 2018 i 2021). Lansiwyd y cyntaf ym mis Gorffennaf 2017 a daeth yr un olaf yn weithredol ym mis Ebrill 2019. Mae'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol, sy'n cael ei gynnal gan Cymdeithasol Llywodraeth Leol Cymru ynghyd â Iechyd Cyhoeddus Cymru, wedi ymrwymo o'r cychwyn cyntaf, ynghyd ag Arweinwyr GAI a'r Gymuned Ymarfer ar gyfer Diagnosis Oedolion, i sicrhau bod effaith y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig newydd yn cael ei fesur.

Cesglir y data trwy gronfa ddata a reolir gan Data Cymru. Mae data'n cael ei fewnbynnu gan bob GAI bob chwarter a'i anfon trwy Emyr, safle cyfnewid ffeiliau diogel Data Cymru, yn seiliedig ar dri chategori, Data Oedolion Awtistig, Data Rhieni Gofalwyr a Data Proffesiynol. Er mwyn cyfoethogi'r data, mae data ansoddol yn cael ei ddal trwy'r Outcomes Star, offeryn mesur canlyniadau, a thrwy astudiaethau achos.

## 3. Data Oedolion


Ar gyfer oedolion nad ydynt yn gallu cael mynediad i gyngor neu cefnogaeth gan wasanaethau statudol oherwydd gwaharddiad cymhwysedd, a lle nad yw'r ddarpariaeth ar gael mewn man arall, mae'r GAI yn darparu asesiad diagnostig a gwybodaeth a chefnogaeth ôl-ddiagnostig. Isod mae data sy'n gysylltiedig â hyn a ddarparwyd gan yr GAI yn 2023/24.

Isod mae nifer y rhyngweithiau a'r cyfeiriadau sy'n ymwneud ag oedolion awtistig. Gall rhyngweithio gynnwys trafodaethau anffurfiol trwy e-bost, galwadau ffôn neu wyneb yn wyneb. Gall rhain arwain at gyfeiriad ffurfiol i'r gwasanaeth neu beidio a gallant gynnwys cyfeirio at wasanaethau eraill mwy addas. Mae cyfeiriadau'n cyfeirio at geisiadau ffurfiol am wasanaethau gan y GAI.

Tabl 3.1: Nifer y rhyngweithiau a chyfeiriadau ar gyfer oedolion i'r GAI

| | |
|---|---|
| Rhyngweithiau gydag unigolion awtistig | **10,406** |
| Cyfeiriadau ar gyfer oedolion awtistig | **7,501** |
| Cyfeirio gan weithwyr proffesiynol | 2,861 |
| Hunan-gyfeiriad | 4,274 |
| Cyfeirio gan rhieni/ gofalwyr | 366 |

Graff 3.1: Dadansoddiad o gyfeiriadau ar gyfer oedolion awtistig





Gellir rhannu ceisiadau cyfeirio yn ddau gategori, unigolion sydd eisoes â diagnosis o awtistiaeth ond sy'n ceisio cefnogaeth ac oedolion sy'n ceisio asesiad diagnostig. Isod mae Tabl a Graff yn dangos natur y cyfeiriadau i'r GAI.

Tabl 3.2: Natur y cyfeiriadau ar gyfer oedolion

| Defnyddwyr Gwasanaeth | | |
|---|---|---|
| | Oedolion awtistig yn gofyn am gefnogaeth | 2,586 |
| | Oedolion sy'n gofyn am asesiad diagnostig | 4,882 |

Graff 3.2: Natur y cyfeiriadau ar gyfer oedolion awtistig





Dangosir dosbarthiad oedran oedolion sy'n cyrchu'r gwasanaeth yn y Tabl a'r Graff canlynol. Mae'r opsiwn 'mae'n well gen i beidio â dweud' yn cynrychioli'r rhai na fyddai'n briodol casglu'r data hwn yn awtomatig. Gall hyn gynnwys pobl a welir mewn sesiynau galw heibio neu cyfeiriadau ymholi.

Tabl 3.3: Dosbarthiad oedran oedolion awtistig sy'n cyrchu gwasanaeth

| Dosbarthiad oedran | |
|---|---|
| 16 -17 | 196 |
| 18 - 25 | 2,051 |
| 26 - 45 | 2,709 |
| 46 - 64 | 904 |
| 65+ | 84 |
| Dymuno peidio dweud | 1,557 |

Graff 3.3: Dosbarthiad oedran oedolion sy'n cyrchu gwasanaeth





Dangosir rhyw oedolion sy'n cyrchu'r gwasanaeth yn y Tabl a'r Graff canlynol. Mae'r adran 'Arall' yn cynnwys pobl sy'n adnabod fel rhywiau amgen neu lle nad oedd y data yn hawdd ei goladu na'u hadnabod.

Tabl 3.4: Rhyw yr oedolion sy'n cyrchu gwasanaethau

| Rhyw | |
|---|---|
| Gwryw | 2,599 |
| Benyw | 3,420 |
| Gwell peidio dweud | 1,162 |
| Arall | 320 |

Graff 3.4: Rhyw yr oedolion awtistig sy'n cyrchu gwasanaethau




Mae'r Tabl a'r Graff isod yn dangos y prif reswm mae oedolion yn cael eu cyfeirio i'r gwasanaeth. Gall hyn newid trwy drafodaethau cychwynnol gyda'r gwasanaeth ond mae'n rhoi syniad o rai o'r anawsterau sy'n cael eu nodi gan oedolion awtistig.

Tabl 3.5: Y prif reswm cychwynnol dros cyfeirio i'r gwasanaeth

| Prif reswm dros cyfeirio | |
|---|---|
| Cefnogaeth / cyngor ôl-ddiagnostig | 1,198 |
| Cefnogaeth cyflogaeth | 46 |
| Sgiliau byw bob dydd | 76 |
| Ymddygiad heriol | 15 |
| Hamdden | 72 |
| Sgiliau cymdeithasol | 80 |
| Asesiad diagnostig | 4,882 |
| Dysregu emosiynol | 40 |
| Pryder | 84 |
| Iselder | 56 |
| Cwsg / diet | 53 |
| Mynediad i wasanaethau eraill | 70 |
| Cefnogaeth rhieni | 40 |
| Arall | 765 |

Graff 3.5: : Y prif reswm cychwynnol dros cyfeirio i'r gwasanaeth




Isod mae canlyniad cyfeiriadau i'r gwasanaethau. Mae'r wybodaeth hon yn helpu'r gwasanaethau i nodi patrymau mewn cyfeiriadau na ellir eu derbyn a'r rhai sydd angen gwybodaeth bellach.

Tabl 3.6: Canlyniad cyfeiriadau i'r gwasanaethau

| Canlyniad cyfeiriadau | |
|---|---|
| Penderfyniad | |
| Derbyn | 6,176 |
| Dim derbyn | 393 |
| Aros am fwy o wybodaeth | 931 |

Graff 3.6: Canlyniad cyfeiriadau i'r gwasanaethau





Isod mae dadansoddiad o gyfeiriadau na dderbyniwyd i mewn i'r gwasanaethau. Mae yna sawl rheswm nad yw cyfeiriad yn briodol, gan gynnwys rhywun sy'n derbyn cefnogaeth gan wasanaethau eraill fel gwasanaethau anabledd dysgu neu wasanaethau iechyd meddwl, neu nad yw'n briodol oherwydd oedran.

Tabl 3.7: Y rhesymau dros beidio â derbyn cyfeiriadau i'r gwasanaeth

| Rheswm dros beidio â derbyn cyfeiriadau | |
|---|---|
| Tu allan i ardal | 39 |
| Ddim yn briodol | 245 |
| Gwybodaeth annigonol | 109 |

Graff 3.7: Y rhesymau dros beidio â derbyn cyfeiriadau i'r gwasanaeth





Mae'r Tabl a'r Graff isod yn darlunio ymyriadau a dderbynnir gan oedolion sy'n cyrchu'r gwasanaethau. Mae hyn yn rhoi syniad o ba fath o wasanaethau sydd eu hangen ar oedolion awtistig.

Tabl 3.8: Yr ymyriadau a dderbynnir gan oedolion o'r gwasanaeth

| Ymyrraeth a dderbyniwyd | |
|---|---|
| Asesiad Diagnostig | 1,316 |
| Staff Seicoleg y GAI | 202 |
| Staff Therapi Lleferydd ac Iaith y GAI | 159 |
| Staff Therapi Galwedigaethol y GAI | 370 |
| Dietegwyr y GAI | 37 |
| Gweithwyr Cefnogol y GAI | 1,227 |
| Mynediad i grŵp cymorth | 1,024 |
| Cyfeirio i wasanaeth arall | 72 |
| Dim gweithredu pellach | 21 |
| Cyfeirio at wasanaeth arall | 246 |
| Darparu gwybodaeth | 723 |
| Ymarferydd ASA | 290 |
| Gweithiwr cymdeithasol | 91 |
| Nyrs cofrestredig | 22 |
| Rheolwr tîm GAI | 253 |
| Arall | 52 |

Graff 3.8: Yr ymyriadau a dderbynnir gan oedolion o'r gwasanaeth




Dangosir prydlondeb cefnogaeth ac asesiad diagnostig mewn wythnosau yn y Tabl isod. Mae'r data yn seiliedig ar chwarter 4 2023/24 yn unig gan ei fod yn dangos darlun mwy cywir o'r sefyllfa bresennol.

Tabl 3.9: Prydlondeb cefnogaeth ac asesiad diagnostig yn ogystal â data diagnosis cadarnhaol ar gyfer oedolion awtistig

| Prydlondeb cefnogaeth | |
|---|---|
| Yr wythnosau ar gyfartaledd o'r pwynt derbyniwyd cyfeiriad i'r pwynt o'r dderbyn | 3.3 |
| Yr wythnosau ar gyfartaledd o dderbyn cyfeiriad i ddechrau ymyriad | 14.4 |
| Prydlondeb asesiad diagnostig | |
| Yr wythnosau ar gyfartaledd o'r pwynt derbyniwyd cyfeiriad i'r pwynt o'r dderbyn | 8.1 |
| Yr wythnosau ar gyfartaledd o dderbyn cyfeiriad i ddechrau ymyriad | 86.6 |
| Yr wythnosau ar gyfartaledd o apwyntiad cychwynnol i diagnosis / canlyniad | 5.7 |

Mae'r Tabl isod yn dangos nifer yr asesiadau diagnostig a gynhaliwyd gan yr GAI a'r nifer a arweiniodd at ddiagnosis cadarnhaol.

Tabl 3.10: Asesiadau diagnostig

| Asesiadau diagnostig | |
|---|---|
| Nifer yr oedolion a dderbyniodd asesiad | **1316** |
| Nifer yr asesiadau sy'n arwain at ddiagnosis cadarnhaol | 1070 |
| Nifer o oedolion ar y rhestr aros ar gyfer asesiad diagnosis ar diwedd y chwarter | 6246 |

Mae'r Tabl isod yn nodi gwybodaeth ychwanegol am y gwasanaethau, gan gynnwys nifer y sesiynau grŵp a gynhaliwyd, cwynion ffurfiol a chanmoliaeth a dderbyniwyd.

Tabl 3.11: Gwybodaeth ychwanegol am y gwasanaethau

| Gwybodaeth ychwanegol | |
|---|---|
| Nifer y sesiynau grŵp cymorth a gynhaliwyd | 300 |
| Nifer o bobl a fynychodd y sesiynau grŵp | 1065 |
| Nifer y cwynion ffurfiol a dderbyniwyd | 9 |
| Nifer y canmoliaeth a dderbyniwyd | 197 |

## 4. Data Rhieni/ Gofalwyr


Er nad yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc, mae'r gwasanaethau yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i gefnogi rhieni a gofalwyr. Isod mae data sy'n gysylltiedig â'r hyn a ddarparwyd gan yr GAI yn 2023/24.

Isod mae nifer y rhyngweithiau a cyfeiriadau sy'n gysylltiedig â rhieni a gofalwyr. Gall rhyngweithiau gynnwys trafodaethau anffurfiol trwy e-bost, galwadau ffôn neu wyneb yn wyneb. Gall y rhain arwain at cyfeiriad ffurfiol i'r gwasanaeth neu beidio a gallant gynnwys cyfeirio at wasanaethau mwy addas eraill. Mae cyfeiriadau yn cyfeirio at geisiadau ffurfiol am wasanaethau gan yr GAI.

Tabl 4.1: Nifer y rhyngweithiau a cyfeiriadau ar gyfer rhieni a gofalwyr i'r GAI

| | |
|---|---|
| Rhyngweithiau gyda rhieni/ gofalwyr | **1,724** |
| Cyfeiriadau ar gyfer rhieni/ gofalwyr | **465** |
| Cyfeiriwyd gan weithwyr proffesiynol | 23 |
| Hunan-gyfeiriad | 442 |

Graff 4.1: Dadansoddiad o gyfeiriadau ar gyfer rhieni a gofalwyr





Mae'r tabl a graff isod yn nodi a yw defnyddwyr gwasanaeth yn rhieni/ gofalwyr oedolion awtistig neu blant. Mae'r categori 'arall' yn cynnwys rhieni / gofalwyr sy'n gofalu am unigolion dros ac o dan 18 oed ac achosion lle nad oedd y data ar gael.

Tabl 4.2: Natur y gwasanaethau y mae rhieni a gofalwyr yn eu cyrchu

| Defnyddiwr gwasanaeth | |
|---|---|
| Rhieni / gofalwyr oedolyn awtistig | 159 |
| Rhieni / gofalwyr plant awtistig | 14 |
| Arall | 0 |

Graff 4.2: Natur y gwasanaethau y mae rhieni a gofalwyr yn eu cyrchu




Mae'r tabl a'r graff isod yn dangos y prif reswm mae rhieni / gofalwyr yn cael eu cyfeirio i'r gwasanaeth. Gall hyn newid trwy drafodaethau cychwynnol gyda'r gwasanaeth ond mae'n rhoi syniad o'r gefnogaeth y mae rhieni / gofalwyr yn ei cheisio.

Tabl 4.3: Y prif reswm cychwynnol dros cyfeirio i'r gwasanaeth

| Prif Rheswm dros cyfeirio | |
|---|---|
| Cefnogaeth / cyngor ôl-ddiagnostig | 52 |
| Cefnogaeth addysg | 9 |
| Sgiliau byw bob dydd | 6 |
| Ymddygiad heriol | 9 |
| Hamdden | 11 |
| Sgiliau cymdeithasol | 40 |
| Cefnogaeth Rhiant / Gofalwr | 218 |
| Dysregu emosiynol | 1 |
| Pryder | 3 |
| Iselder | 0 |
| Cwsg / diet | 0 |
| Mynediad at wasanaethau eraill | 4 |
| Cefnogaeth rhiantu (rhaglenni) | 0 |
| Arall | 119 |


Tabl 4.3: Y prif reswm cychwynnol dros cyfeirio i'r gwasanaeth



Isod mae canlyniad cyfeiriadau i'r gwasanaethau. Mae'r wybodaeth hon yn helpu'r gwasanaethau i adnabod patrymau mewn cyfeiriadau na ellir eu derbyn a'r rhai sydd angen gwybodaeth bellach.
Tabl 4.4: Canlyniad cyfeiriadau i'r gwasanaethau

| Canlyniad cyfeiriadau | |
|---|---|
| Penderfyniad | |
| Derbyn | 454 |
| Dim derbyn | 8 |
| Aros am gwybodaeth bellach | 7 |


Graff 4.4: Canlyniad cyfeiriadau i'r gwasanaethau




Isod mae dadansoddiad o cyfeiriadau na dderbyniwyd i mewn i'r gwasanaethau. Mae yna sawl rheswm pam na fydd cyfeiriad yn briodol, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn cefnogaeth gan wasanaethau eraill.
Tabl 4.5: Y rhesymau dros beidio â derbyn cyfeiriadau i'r gwasanaethau

| Rheswm dros beidio â derbyn y cyfeiriad | |
|---|---|
| Tu allan i'r ardal | 2 |
| Ddim yn briodol | 6 |
| Gwybodaeth annigonol | 0 |

Graff 4.5: Y rhesymau dros beidio â derbyn cyfeiriadau i'r gwasanaethau





Mae'r tabl a graff isod yn dangos yr ymyriadau a dderbyniwyd gan rieni / gofalwyr sy'n cyrchu'r gwasanaeth. Mae hyn yn rhoi syniad o ba fath o wasanaethau sydd eu hangen ar rieni / gofalwyr.

Tabl 4.6: Yr ymyriadau a dderbyniwyd gan rieni a gofalwyr gan y gwasanaeth

| Ymyrraeth a dderbyniwyd | |
|---|---|
| Staff Seicoleg y GAI | 32 |
| Staff Therapi Lleferydd ac Iaith y GAI | 42 |
| Staff Therapi Galwedigaethol y GAI | 39 |
| Dietegwyr y GAI | 9 |
| Gweithwyr Cefnogol y GAI | 171 |
| Ymarferydd Awtistiaeth | 82 |
| Mynediad i grŵp cymorth | 45 |
| Cyfeirio i wasanaeth arall | 56 |
| Dim gweithredu pellach | 4 |
| Cyfeirio at wasanaeth arall | 0 |
| Darparu gwybodaeth | 23 |
| Arall | 279 |

Graff 4.6: Yr ymyriadau a dderbyniwyd gan rieni a gofalwyr gan y gwasanaeth




Dangosir prydlondeb cefnogaeth i rieni/ gofalwyr mewn wythnosau yn y tabl isod. Mae'r data yn seiliedig ar chwarter 4 2023/24 yn unig gan ei fod yn dangos darlun mwy cywir o'r sefyllfa bresennol. Mae'r tabl hefyd yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am nifer y sesiynau grŵp a gynhaliwyd a nifer y cwynion a'r ganmoliaeth ffurfiol a dderbyniwyd dros y flwyddyn 2023/24.

Tabl 4.5: Gwybodaeth ychwanegol i rieni a gofalwyr

| Gwybodaeth ychwanegol | |
|---|---|
| Nifer y sesiynau grŵp cymorth a gynhaliwyd | 123 |
| Nifer y cwynion ffurfiol a dderbyniwyd | 5 |
| Nifer y canmoliaeth a dderbyniwyd | 100 |

## 5. Data Gweithwyr Proffesiynol

Agwedd bwysig o rôl yr GAI yw gweithio gydag ac addysgu gweithwyr proffesiynol o amrywiaeth o wasanaethau gwahanol er mwyn cefnogi pobl awtistig a'u teuluoedd. Mae hyfforddiant wedi'i adnabod fel angen ymhlith gweithwyr proffesiynol ac yn benodol staff iechyd a gofal cymdeithasol ac mae'r GAI yn darparu elfen o hyn. Mae'r data isod yn gysylltiedig â'r gwaith a wnaed gyda gweithwyr proffesiynol gan yr GAI yn 2023/24.

Isod mae nifer y rhyngweithiau a chysylltiadau newydd gan weithwyr proffesiynol i'r gwasanaeth. Gall rhyngweithiau gynnwys trafodaethau anffurfiol trwy e-bost, galwadau ffôn neu wyneb yn wyneb. Gall y rhain arwain at cysylltiadau mwy ffurfiol gyda'r gwasanaeth neu beidio, a gallant gynnwys cyfeirio at wasanaethau mwy addas eraill. Mae cysylltiadau â gweithwyr proffesiynol yn cyfeirio at waith mwy ffurfiol gyda'r gwasanaeth.

Tabl 5.1: Nifer y rhyngweithiau a chysylltiadau newydd â gweithwyr proffesiynol


| | |
|---|---|
| Rhyngweithiau gyda gweithwyr proffesiynol | **4,853** |
| Cysylltiadau newydd gyda gweithwyr proffesiynol | 2,344 |

Mae'r tabl a'r graff isod yn dangos y prif reswm bod gweithwyr proffesiynol yn cysylltu â'r gwasanaeth

Tabl 5.2: Y prif reswm dros ddod i gysylltiad â'r gwasanaeth

| Prif reswm dros cyswllt | |
|---|---|
| Gofyn am waith / ymgynghoriad ar y cyd ar gyfer cleient 848 Cais am | |
| hyfforddiant 143 Ymholiad cyffredinol arall 1,179 | |
| | |

Graff 5.2: Y prif reswm cychwynnol dros ddod i gysylltiad â'r gwasanaeth




Mae'r tabl a graff canlynol yn dangos y sector y mae gweithwyr proffesiynol sy'n cysylltu â'r gwasanaethau yn dod ohono. Gall y categori 'arall' gynnwys gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y gwasanaethau sifil er enghraifft gweithwyr DWP neu efallai na fydd y wybodaeth ar gael i'w chynnwys.

Tabl 5.3: Y sector y daw'r gweithwyr proffesiynol sy'n cysylltu â'r gwasanaeth ohono

| Sector | |
|---|---|
| Awdurdod Lleol 416 Iechyd 1,243 Sector Preifat 68 Gwirfoddol / | |
| Trydydd Sector 161 Cyfiawnder troseddol 49 Arall 477 | |
| | |
| | |
| | |
| | |

Graff 5.3: Y sector y daw'r gweithwyr proffesiynol sy'n cysylltu â'r gwasanaeth ohono



## 6. Outcomes Star a Gwybodaeth Ychwanegol

Offeryn mesur canlyniadau yw’r Outcomes Star a ddefnyddir gan y Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig wrth weithio gyda phobl ar sail un-i-un. Gall y Outcomes Star ddangos y pellter a deithiwyd gan bobl ar feysydd canlyniad a nodwyd a chaiff ei werthuso ar y cyd gan y person ei hun a'r gweithiwr sy'n eu cefnogi. Mae'r Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig yn defnyddio'r Spectrum Star yn bennaf ac mae naw maes canlyniad iddo.

Isod mae Adroddiad Pellter a Deithiwyd 2023/24 GAI Spectrum Star.



Gwybodaeth bellach y gellir ei defnyddio i ddangos y gwaith a wneir gan y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yw adborth gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a gwerthusiadau grŵp. Dyma rai enghreifftiau o adborth a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig yn 2023/24.

> ‘Dim ond eisiau dweud diolch am yr holl help rydych chi wedi'i roi i mi. Dw i wedi symud i mewn i dŷ bach o’r diwedd nawr… dwi ddim yn meddwl y byddai hynny wedi digwydd hebddoch chi… Diolch yn fawr am bopeth rydych chi’n ei wneud i mi…’ GAI Gogledd Cymru
>
> ‘Byddwn yn ei argymell oherwydd bod y bobl y siaradais â nhw yn gyfeillgar ond yn broffesiynol, ac yn gwneud i mi deimlo'n gyfforddus.’ GAI Caerdydd a’r Fro
>
> Canmolodd aelod o’r teulu weithiwr cymorth a dywedodd mai dyma’r tro cyntaf i aelod o’r teulu deimlo bod rhywun yn gwrando arni’n wirioneddol ac ers siarad â’r gweithiwr cymorth mae pethau wedi newid i X, sydd wedi mynd o dreulio’r rhan fwyaf o’i hamser yn ei hystafell wely i wirfoddoli 6 diwrnod yr wythnos a mwynhau yn fawr. GAI Gogledd Cymru
>
> ‘Roedd y gwasanaeth yn effeithlon ac roedd yn hawdd deall gwybodaeth. Roedd y gweithiwr yn gwrtais, yn amyneddgar ac yn hyblyg. Gweithiodd i gael gwared o unrhyw straen neu ddryswch, a chaniataodd i'r teimlad o gael ei llethu gael ei leihau.’ GAI Caerdydd a’r Fro

Dyma rywfaint o wybodaeth gan grwpiau a gynhelir gan rai o'r Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig.

> GAI Caerdydd a’r Fro ‘Grwp Deall Ymddygiad’
>
> Rhoddodd pob cyfranogwr 5/5 am ba mor addysgiadol oedd y grŵp iddynt. Byddai pob cyfranogwr yn argymell y grŵp i rieni/gofalwyr eraill. Nododd un cyfranogwr ‘Rhoddodd y sesiynau ddealltwriaeth well o lawer i mi pam fod ymddygiadau penodol yn digwydd gyda fy mab. Roedd y strategaethau cyfathrebu yn arbennig o ddefnyddiol i mi’.
>
> GAI Gogledd Cymru ‘Grwp Deall Awtistiaeth’
>
> Roedd casgliad gwerthusiad y grŵp yn nodi ‘O’r maint sampl bach, roedd data cyflawn yn dangos effaith gadarnhaol ar les, cynnydd mewn bodlonrwydd â bod yn awtistig a theimlo’n rhan o grŵp. Roedd cyfranogwyr y grŵp yn gwerthfawrogi’r cyfle i fod gydag oedolion awtistig eraill, awyrgylch y grŵp a’r cyfle i ddysgu mwy amdanynt eu hunain.’

## 7. Casgliad

Mae'r data'n dangos bod y galw ar y Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig yn parhau i dyfu gyda'r gwasanaethau'n derbyn nifer uchel o gyfeiriadau ac yn gweithio gyda nifer cynyddol o bobl.

Ar gyfer gwasanaethau a ddarperir i oedolion, roedd 57% o'r cyfeiriadau yn hunan-gyfeiriadau gan yr oedolion eu hunain. Roedd chwedeg pump y cant o'r cyfeiriadau ar gyfer asesiad diagnostig a 35% ar gyfer cefnogaeth. Mae'r rhan fwyaf o ddosbarthiad oedran oedolion awtistig sy'n defnyddio'r gwasanaeth rhwng 18-45. Yr ymyriadau a gyrchir amlaf oedd asesiadau diagnostig, cefnogaeth gan weithwyr cymorth GAI, mynediad i grwpiau cefnogaeth a darparu gwybodaeth. Gellir nodi hefyd y bu

cynnydd o 46% yn y cyfeiriadau i'r gwasanaeth gan oedolion yn 2023/24 o'i gymharu â ffigurau 2022/23. Yn ogystal bu cynnydd o 35% yn yr asesiadau diagnostig a gynhaliwyd yn 2023/24 o gymharu â 2022/23.

Roedd 95% o'r cyfeiriadau yn hunan-gyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau a ddarperir i rieni / gofalwyr. Roedd nawdeg dau y cant o'r cyfeiriadau gan rieni a gofalwyr oedolion a 8% gan rieni a gofalwyr plant. Y prif reswm dros cyfeiriadau oedd cefnogaeth rhieni / gofalwyr, cefnogaeth / cyngor ôl-ddiagnostig, rhaglenni cefnogi rhieni a sgiliau byw bob dydd. Yr ymyriadau a gyrchir amlaf oedd darparu gwybodaeth, cefnogaeth gan weithwyr cymorth, cefnogaeth gan ymarferwyr awtistiaeth a mynediad i grwpiau cefnogi. Gellir nodi hefyd y bu cynnydd o 16% yn y cyfeiriadau i'r gwasanaeth gan rieni / gofalwyr yn 2023/24 o'i gymharu â ffigurau 2022/23.

Mae'r data'n dangos bod rhan sylweddol o waith y gwasanaethau yn ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol. Y prif reswm dros cyfeiriadau oedd ymholiadau cyffredinol gan 54% a gofyn am waith ar y cyd / ymgynghori â'r cleient gan 39%. Yn ogystal, roedd 51% yn weithwyr proffesiynol o'r bwrdd iechyd, 17% yn dod o awdurdodau lleol a 7% o'r sector gwirfoddol. Gellir nodi hefyd y bu cynnydd o 35% yn y cysylltiadau â'r gwasanaeth gan weithwyr proffesiynol yn 2023/24 o'i gymharu â ffigurau 2022/23.

Mae gwerthusiad canlyniadau drwy'r Outcomes Star ac adborth gwasanaeth yn dangos bod y Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig wedi cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl yn 2023/24.